------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Ebrill 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09:15-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 2)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023

**2.1 PTN 1 - Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Ymateb Llywodraeth Cymru - 6 Mawrth 2023**

(Tudalennau 3 - 21)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Taliad o Gronfa Wrth Gefn y DU - 9 Mawrth 2023**

(Tudalen 22)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar y gymorth dyngarol i Wcráin - 16 Mawrth 2023**

(Tudalennau 23 - 24)

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Effaith chwyddiant ar y rhaglen addysg ac ysgolion - 20 Mawrth 2023**

(Tudalennau 25 - 26)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

2.5 PTN 5 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyllid Ychwanegol ar gyfer y GIG - 24 Mawrth 2023

(Tudalennau 27 - 30)

2.6 PTN 6 – Llythyr gan y Prif Weinidog: Cydsyniad Brenhinol Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) – 22 Mawrth 2023

(Tudalennau 31 - 32)

2.7 PTN 7 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) - 9 Mawrth 2023

(Tudalennau 33 - 34)

2.8 PTN 8 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – 24 Mawrth 2023

(Tudalennau 35 - 40)

2.9 PTN 9 – Llythyr gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – 22 Mawrth 2023

(Tudalen 41)

2.10 PTN 10 – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-2024 – Ymateb wedi'i ddiweddaru gan Gomisiwn y Senedd – 30 Mawrth 2023

(Tudalennau 42 - 44)

2.11 PTN 11 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Setliad Llywodraeth Leol – 3 Ebrill 2023

(Tudalennau 45 - 46)

2.12 PTN 12 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) – Memorandwm Esboniadol wedi'i Ddiweddaru – 28 Chwefror 2023

(Tudalennau 47 - 49)

2.13 PTN 13 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Bwyd (Cymru)

(Tudalennau 50 - 51)

## 3 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

(09.30-10.30) (Tudalennau 52 - 78)

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Olwen Spiller, Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd

Roger Herbert, Pennaeth Monitro, Tystiolaeth ac Asesu Ansawdd Aer

**Dogfennau ategol**:

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (PDF, 218KB)

Memorandwm Esboniadol (PDF, 2MB)

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfod ar 24 Mai.

(10.30)

## 5 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 6 Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion

(10.45-11.15) (Tudalennau 79 - 81)

**Dogfennau ategol**:

FIN(6)-08-23 P1 - Datganiad o Egwyddorion

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mawrth 2023

Amser: 09.30 - 10.32

# O bell, Prifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Catherine McKeag (Ysgrifenyddiaeth) |

**Yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2023, derbyniodd y Pwyllgor gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw.**

**Cofrestru (09.15-09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Goblygiadau ariannol Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

2.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.

## 3 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

3.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y flaenraglen waith.

## 4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Y dull gweithredu o ran ymgysylltu

4.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar y dull o ymgysylltu mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25.

## 5 Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.

# Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell, pan fydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ohirio cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfnod cryno o waith craffu, y dylai'r Gweinidog fynd i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid i drafod blaenoriaethau'r gyllideb a'r cyd-destun economaidd y caiff y gyllideb ei llunio ynddo.**

**Derbyn**

Byddai'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn falch o barhau â'r arfer o gwrdd â'r Pwyllgor Cyllid cyn cyhoeddi Cyllidebau Drafft yn y dyfodol, i drafod blaenoriaethau'r gyllideb a'r cyd-destun economaidd. Yn ogystal, byddai'r Gweinidog yn fodlon i'w swyddogion, gan gynnwys y Prif Economegydd, ddarparu sesiynau briffio technegol i'r Pwyllgor, fel sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, ar faterion gan gynnwys y cyd-destun economaidd, gwella'r gyllideb, cyllidebu ar sail rhyw a chyllidebu gwyrdd. Gellid ystyried trefniadau o'r fath fel rhan o drafodaethau ynglŷn â'r diweddariad arfaethedig i Brotocol Busnes y Gyllideb.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad llawn o'r effaith a gaiff chwyddiant ar ei sefyllfa gyllido ar gyfer 2023-24 a'r newidiadau i'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni o fewn y cyfnod hwnnw.**

**Derbyn**

Mae'r rhagolygon diweddaraf o chwyddiant yn dangos bod Banc Lloegr yn disgwyl i chwyddiant ostwng yn ystod gweddill y flwyddyn. Ar ei ragolygon canolog, rhagamcenir y bydd chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn gostwng i ychydig o dan bedwar y cant erbyn diwedd 2023, gan adlewyrchu'r dirywiad cyflym mewn pwysau prisiau byd-eang a'r gostyngiad yng nghyfraniad prisiau ynni at chwyddiant. Serch hynny, mae ystod eang o ansicrwydd yn gysylltiedig â rhagolygon Banc Lloegr ac, yn ôl y Banc, gallai'r gyfradd chwyddiant ar ddiwedd y flwyddyn fod unrhyw le mewn ystod o agos at sero i dros chwech y cant. Mae effaith chwyddiant ar sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru yn dibynnu nid yn unig ar lefel chwyddiant ond hefyd ar ei gyfansoddiad, gyda chostau cyflogau a chostau mewnbynnau amrywiol yn codi ar gyfraddau sydd yn aml yn wahanol i'r prif CPI. Er enghraifft, dros y blynyddoedd diwethaf, mae chwyddiant prisiau adeiladu wedi bod yn uwch na chwyddiant CPI. Nid oes rhagolygon swyddogol amserol o sut y bydd chwyddiant yn effeithio ar y costau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, ond nid oes rheswm dros gredu y bydd lefel yr ansicrwydd yn is na'r ansicrwydd sy'n berthnasol i chwyddiant CPI. Am y rhesymau hyn, er y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau i asesu effaith chwyddiant ar ei sefyllfa gyllido a'i hallbynnau disgwyliedig ar gyfer 2023-24, mae'n anochel na fydd asesiad o'r fath yn hollol fanwl gywir ac y bydd yn cael ei adolygu wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

Mae Atodiad A i Nodyn Esboniadol y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror yn rhoi diweddariad ar chwyddiant a'r sefyllfa economaidd.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU, drwy'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid a sianeli eraill, i sefydlu dulliau rhynglywodraethol cadarn sy'n ymwneud â materion cyllidol i sicrhau y gall uwchgyfeirio anghytundebau yn effeithiol a datrys anghydfodau ariannu.**

**Derbyn**

Fel rhan o'r adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau y cytunwyd arno yn sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol.

Mae'r adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn cynnig strwythurau a phrosesau i alluogi ymgysylltu ystyrlon, a dull sy'n cadarnhau hawl pob Llywodraeth i atgyfeirio ac uwchgyfeirio anghydfod. O dan y trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau bydd yna ysgrifenyddiaeth annibynnol a bydd cyfarfodydd yn cael eu cadeirio'n annibynnol. Yn ogystal, ceir rhagdybiaeth o fewnbwn annibynnol, drwy naill ai cyngor neu gyfryngu a mwy o dryloywder i hwyluso gwaith craffu deddfwrfeydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Ein gobaith yw y gallwn weithio gyda Llywodraeth y DU yn bragmataidd drwy drefniadau newydd yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol cyn bod angen defnyddio'r broses datrys anghydfod ffurfiol.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am ddulliau annibynnol i ddatrys anghydfodau cyllid rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a rhoi diweddariad ar y defnydd ohonynt.**
**Derbyn**

[Gweler hefyd yr ymateb i Argymhelliad 3]

Mae Atodiad C (Cylch Gorchwyl) ar gyfer y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) yn nodi'r broses ar gyfer codi anghydfodau ariannol ym mharagraffau 12 i 26. Mae'r paragraffau hyn yn amlinellu na chaiff unrhyw aelod o'r F:ISC wrthod penderfyniad aelod arall i godi anghydfod. Maent hefyd yn sefydlu y bydd F:ISC mewn sefyllfa o anghydfod yn cael ei gadeirio gan gadeirydd annibynnol, y mae rhaid i bob parti yn yr anghydfod gytuno arno.

Mae cynnwys annibyniaeth yn y broses anghydfodau yn rhywbeth y llwyddodd y Llywodraethau datganoledig i'w negodi, ynghyd â gosod amserlen ar gyfer rheoli anghydfodau i sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn amserol. Serch hynny, y dewis olaf yw codi anghydfod, ac mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi y dylem geisio cynnal cysylltiadau cadarnhaol ac adeiladol, yn seiliedig ar barch ar y cyd.

Nid yw trefniant datrys anghydfodau'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (Saesneg yn unig) wedi'u profi eto gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith manwl i fodelu effaith amrywio cyfraddau treth incwm Cymru ym mhob band ar ymddygiad a hynny er mwyn sicrhau bod y broses**

**benderfynu ynghylch pennu cyfraddau treth yn cael ei hategu gan dystiolaeth gadarn.**

**Derbyn**

Mae'r canllaw cyflym ar dreth incwm a gyhoeddwyd gyda'r Gyllideb Ddrafft yn ystyried effaith newidiadau i dreth ar ymddygiad. Mae'n defnyddio amcangyfrifon sefydledig CThEF ar gyfer elfennau penodol ond hefyd yn cynnwys amcangyfrifon ychwanegol ar gyfer effaith bosibl amrywio cyfraddau treth incwm ar fudo o fewn y DU. Mae'r amcangyfrifon hynny'n seiliedig ar astudiaeth academaidd o'r Swistir, a ystyriwyd i fod y mesur procsi mwyaf priodol a oedd ar gael ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru.

Mae'r newidiadau diweddar i gyfraddau a throthwyon treth incwm yn yr Alban yn darparu'r enghraifft gyntaf o amrywio polisi treth incwm o fewn y DU. Mae CThEF wedi defnyddio'r newidiadau hynny i lunio amcangyfrifon o effeithiau ar ymddygiad sydd wedi'u cyhoeddi ac a gafodd eu cyflwyno yng Nghynhadledd Dreth Llywodraeth Cymru y llynedd. Nid oedd yr amcangyfrifon hynny'n ymdrin ag ymatebion mudo i newidiadau treth a fyddai, yn amlwg, o ddiddordeb yma yng Nghymru.

Mae CThEF yn datblygu gwaith ar set ddata hydredol a fydd, gobeithio, yn galluogi dadansoddi ychwanegol o effeithiau posibl newidiadau i'r tri band treth ar gyfer Cyfraddau Treth Incwm Cymru ar ymddygiad, gan gynnwys ymatebion mudo.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith sylfaenol i'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu cyfraddau bandiau a throthwyon treth incwm Cymru a'i bod yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y cynnydd hwnnw cyn dadl flynyddol y Pwyllgor ar flaenoriaethau cyllidebol yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Byddai datganoli pwerau i amrywio trothwyon treth incwm yn darparu offer polisi ychwanegol defnyddiol ond byddai'n anodd ei wneud heb ddatganoli'n llawn bob treth incwm ar incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm di-ddifidend. Byddai hyn yn newid sylweddol yng nghyfrifoldebau trethi datganoledig Llywodraeth Cymru a byddai'n golygu bod yn llawer mwy agored i risg twf cymharol yn y sylfaen drethu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU. Byddai hyn yn peri pryder penodol mewn perthynas â chyfraddau uwch ac ychwanegol lle nad yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ond yn agored i 10c ym mhob band. Mae twf mewn refeniw o'r ddau fand hyn yn tueddu i fod yn fwy anwadal o flwyddyn i flwyddyn na refeniw'r gyfradd sylfaenol, ac i amrywio'n fwy rhwng gwahanol rannau o'r DU. Bydd hyn yn effeithio ar effaith net datganoli treth incwm ar gyllidebau o flwyddyn i flwyddyn drwy ddull addasu'r grant bloc. Mae treth incwm ar incwm nad yw'n deillio o gynilion ac incwm di-ddifidend wedi'i datganoli'n llawn i Lywodraeth yr Alban. Mae Comisiwn Cyllidol yr Alban yn disgwyl effaith net werth oddeutu -£100 miliwn ar gyllideb Llywodraeth yr Alban eleni, er gwaethaf ymdrech dreth ychwanegol gan drethdalwyr yr Alban werth oddeutu £850 miliwn o newidiadau i gyfraddau a throthwyon.

Er y byddwn yn parhau i geisio deall yn well y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i addasu cyfraddau bandiau a throthwyon treth incwm Cymru, mae angen rhoi'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun yr ystyriaethau cyllidol ehangach a'n blaenoriaethau polisi treth ehangach.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â datganoli pwerau i weinyddu budd-daliadau yng Nghymru ac yn rhoi diweddariadau cyfnodol ar gynnydd i'r Pwyllgor.**

**Derbyn**

Mae gan bwerau i weinyddu lles y potensial i gynnig mwy o ysgogiadau i drechu tlodi yng Nghymru. Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Phlaid Cymru i gefnogi datganoli'r gwaith o weinyddu lles ac ystyried pa seilwaith sydd ei angen er mwyn paratoi ar gyfer hynny. Rydym yn cytuno y byddai angen trosglwyddo cymorth ariannol priodol i gyd-fynd â throsglwyddo pwerau o'r fath.

Rydym yn gwybod bod yna anawsterau wrth ddiffinio sut y mae'r egwyddorion craidd ar gyfer gweinyddu budd-dal nawdd cymdeithasol yn wahanol i egwyddorion craidd ar gyfer polisi budd-dal. Mae hefyd angen ystyried yn ofalus y setliad ariannol pe bai pwerau gweinyddu lles yn cael eu datganoli. Bydd y ddau fater hyn yn gofyn am negodi cymhleth â Llywodraeth y DU i'w datrys. Bydd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cynnig diweddariadau rheolaidd ar gynnydd.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfrifiadau manwl yn ymwneud â'r addasiad i'r grant bloc ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft, naill ai fel rhan o naratif y gyllideb neu trwy eu cynnwys yng nghyhoeddiad Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, sef Rhagolwg Trethi Cymreig, i ddangos sut y mae pob treth ddatganoledig yn effeithio ar y grant bloc a sefyllfa ariannu gyffredinol Llywodraeth Cymru.**

**Derbyn**

Mae naratif y Gyllideb Ddrafft yn cynnwys manylion sylweddol am yr addasiadau i'r grant bloc ar gyfer y tair treth ddatganoledig. Serch hynny, mae cynnwys yn y rhifyddeg gyllidebol symiau cysoni alldro a rhagolygol ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru a'r addasiad grant bloc cysylltiedig wedi gwneud y darlun yn fwy cymhleth nag yr oedd o'r blaen. O ystyried y datblygiadau hyn, cytunir y byddai cyflwyniad manylach o'r elfennau amrywiol yn fuddiol.

Mae gweithredu dulliau addasu'r grant bloc yn fater rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n debygol felly y bydd y cyflwyniad manylach yn ffurfio rhan o ddogfennaeth Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi'r Gyllideb Ddrafft, yn hytrach na rhan o Ragolwg Trethi Cymreig y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd cyflwyniad newydd yn cael ei ddarparu gyda'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi rhagor o fanylion, mewn ymateb i'r adroddiad hwn ac ochr yn ochr â chyllidebau atodol, ar sut y bydd cyllidebau cyfyngedig a phwysau chwyddiant yn effeithio ar ei rhaglen gyfalaf, gan gynnwys:**

- **pa brosiectau fydd yn cael eu blaenoriaethu dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod a pha rai fydd ar eu colled; a**
- **beth fydd effaith pwysau o'r fath ar gyflawni blaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Gwnaethom gynnal gwaith sylweddol yn ystod Adolygiad o Wariant 2021 o ran cynnal adolygiad sylfaen sero o'r cyllidebau cyfalaf ar draws portffolios Llywodraeth Cymru, i gysoni ein blaenoriaethau â'n Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu. O ganlyniad, cyhoeddwyd ein Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf gyda Chyllideb Ddrafft 2022-23. Cynllun gweithredu 3 blynedd yw'r Cynllun Cyllid Seilwaith sy'n amlinellu dros £8 biliwn o gyllid cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25 ar gyfer buddsoddiadau mewn seilwaith a ddangosodd y byddent yn cyflawni'r canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Rhaglen Lywodraethu yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Cyllid Seilwaith yn ddogfennau mwy tymor hir na chyfnod y Gyllideb, gyda'r ddau'n adlewyrchu'r gwaith mwy tymor hir o gynllunio a chyflawni buddsoddiadau mewn seilwaith. Datblygwyd dull Cynlluniau Cyllid Seilwaith 3 blynedd i fod yn ystwyth ac addasu i'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu. Bydd lefelau chwyddiant yn anochel yn golygu y bydd angen i Weinidogion portffolio reoli eu dyraniadau o'r gyllideb drwy ymateb i bwysau gan gyflymu ac arafu prosiectau a rhaglenni yn ôl argaeledd cyllidebol; a rhaid hefyd asesu beth sy'n bosibl ei gyflawni o fewn eu dyraniadau.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol cyn i'r Gyllideb Derfynol gael ei gosod ac yn egluro pam nad oedd modd cynnwys y dyraniadau hyn yn y Gyllideb Ddrafft am yr ail flwyddyn yn olynol.**

**Derbyn**

Darparodd dogfennaeth y Gyllideb Derfynol ar 28 Chwefror 2023 fanylion dyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a wnaed fel rhan o Gyllideb Flynyddol 2023-24. Roedd hyn yn cynnwys dyraniadau ychwanegol a wnaed fel rhan o'r Gyllideb Derfynol. Roedd y rhain yn adeiladu ar dros £1.8 biliwn o ddyraniadau cyfalaf trafodiadau ariannol a gyhoeddwyd yn y setliad amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Gwnaethom ddarparu manylion y dyraniadau newydd hyn i'r Pwyllgor Cyllid mewn gohebiaeth ar 27 Chwefror, cyn cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth y DU i gynyddu'r terfynau cyffredinol a'r terfynau blynyddol o ran benthyca a chronfeydd wrth gefn, yn unol â chwyddiant o leiaf, ac y dylid**

**adolygu'r terfynau hyn yn rheolaidd er mwyn peidio â lleihau eu gwerth mewn termau real dros amser.**

**Derbyn**

Mae'r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg, gan ein gadael yn ddibynnol ar benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU ac yn agored i effaith amseru'r penderfyniadau hynny. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid o'r blaen wedi amlygu'r achos dros bwerau wrth gefn cryfach yng Nghymru ac i derfynau tynnu i lawr gael eu cynyddu, os nad eu diddymu. Barn y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yw y dylai'r terfynau presennol ar y cyfanswm y gellir ei ddal wrth gefn o leiaf fod wedi'i fynegeio ryw ffordd i wneud cyfrif am dwf mewn gwariant datganoledig a refeniw trethi.

Yn ei Adroddiad Interim, nododd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru fod y broblem ariannol ymarferol fwyaf uniongyrchol yn deillio o'r cyfyngiadau a roddir ar waith gan Drysorlys EF ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rheoli ei chyllideb. Nododd fod gallu Llywodraeth Cymru i gael benthyg at ddibenion buddsoddiad cyfalaf, ac i drosglwyddo gwariant cyfalaf rhwng blynyddoedd ariannol, wedi'i gyfyngu gan derfynau a osodwyd yn 2016-17; rhaid i unrhyw geisiadau am hyblygrwydd gael eu cyflwyno i Drysorlys EF fesul achos, sy'n cymryd amser ac yn dreth ar adnoddau. Dywedodd hefyd ei bod yn anodd gweld pam mae angen y terfynau hyn, wrth ystyried bod Llywodraeth Cymru yn atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru am ei stiwardiaeth o wariant cyhoeddus.

Ers tro, mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU dros hyblygrwydd cyllidol ychwanegol yma yng Nghymru. Gwnaeth Prif Weinidog Cymru sôn yn benodol am uwchraddio'r terfynau yn y fframwaith cyllidol yng nghyfarfod Cyngor y Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Datganoledig hydref y llynedd. Rydym yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am hyblygrwydd cyllidol ychwanegol, drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC), a thrwy gyfarfodydd dwyochrog â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro lefelau cronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn deg, yn cael eu defnyddio'n briodol ac ar lefelau digonol i ymdrin â'r pwysau a wynebir.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Er bod penderfyniadau ynghylch gosod lefelau cronfeydd wrth gefn, a defnyddio cronfeydd wrth gefn, yn fater i aelodau etholedig o awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn cyhoeddi data ar gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol yn flynyddol. Bydd lefelau cronfeydd wrth gefn mewn awdurdod yn adlewyrchu cynlluniau mwy tymor hir yn ogystal â rheoli pwysau mwy tymor byr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod y fframwaith statudol ar gyfer cyfrifyddu llywodraeth leol sy'n cynnwys trin cronfeydd wrth gefn. Caiff sefyllfa ariannol gyffredinol llywodraeth leol ei hystyried fel rhan o gyllideb flynyddol Cymru. Mae ein

His-grŵp Cyllid sefydlog gyda llywodraeth leol yn darparu fforwm parhaus i drafod cyllid llywodraeth leol gan gynnwys cronfeydd wrth gefn.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennaeth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:**

- **asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real;**
- **asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.

Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.

Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod lefel y wybodaeth a ddarperir yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 yn gyfwerth â'r wybodaeth a roddir yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.**

**Gwrthod**

Er ein bod wedi ymrwymo o hyd i wella'r cyflwyniad o wybodaeth a geir o fewn dogfennaeth y gyllideb, fel yr eglurwyd yn ystod y ddadl ar y Gyllideb Ddrafft yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Chwefror, mae yna wahaniaeth rhwng Adolygiad o Wariant a chyllideb flynyddol. Amlinellodd Cyllideb Ddrafft 2022-23 Gyllideb amlflwyddyn hyd at 2025, ochr yn ochr ag adolygiad sylfaen sero o ddyraniadau cyfalaf.

Cyllideb flwyddyn oedd Cyllideb Ddrafft 2023-24, a oedd yn adeiladu ar y cyhoeddiadau a wnaed fel rhan o'r gyllideb amlflwyddyn a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Ein nod oedd cyhoeddi lefel o wybodaeth sy'n gymesur â'r gyllideb flynyddol a gynhaliwyd. Yn sgil hyn, ni wnaeth dogfennaeth cyllideb 2023-24 ailddatgan yr holl wybodaeth a oedd eisoes wedi ei chyhoeddi ac yr oedd y Senedd eisoes wedi craffu a chynnal dadl arni. Roedd dogfennaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn unigol 2023-24 yn canolbwyntio ar y newidiadau pwysig a weithredwyd ar gyfer y rownd gyllidebol hon, gan gadarnhau newidiadau i setliad y Gyllideb a wnaed fel rhan o Ddatganiad Hydref Llywodraeth y DU. Er hynny, arweiniodd hyn at gyhoeddi cyfres helaeth o ddogfennau, gan adeiladu ar y rhai a luniwyd ar gyfer Adolygiad o Wariant amlflwyddyn 2022.

Rydym yn parhau i ddiwygio'r dull hwn ac rydym yn ddiweddar wedi llunio taflen ac animeiddiad i blant ynglŷn â’r gyllideb yn nodi o ble mae ein harian yn dod ac ar beth mae'r rhan fwyaf ohono'n cael ei wario. Datblygwyd rhai o'r cynhyrchion hyn ar y cyd â'n partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys plant; ac roeddent hefyd yn ymdrech i gynnwys adborth gan gydweithwyr yn y Senedd dros y blynyddoedd, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid.

Felly, dylid ystyried y ddau becyn cyllidebol hyn – y gyllideb amlflwyddyn a'r gyllideb flwyddyn – gyda'i gilydd. Er nad ydym yn cynnig y dylai Cyllideb Ddrafft 2024-25 gynnwys lefel gyfwerth o wybodaeth â Chyllideb 2022-23, rydym yn fodlon archwilio pa welliannau pellach y gellid eu gwneud i’r cyflwyniad o wybodaeth yn y cyd-destun hwn.

**Argymhelliad 15. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei chynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw i lywio a datblygu arfarniad polisi rhyw cynhwysfawr o holl benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Mae ein gwaith ar gyllidebu ar sail rhyw, gan gynnwys y cynlluniau peilot, yn cynrychioli newid systemig a diwylliannol. Rydym yn dysgu gan arweinwyr byd, fel Llywodraeth Gwlad yr Iâ, a ddywedodd wrthym ei bod wedi cymryd o leiaf 7 mlynedd i wreiddio’r newidiadau o gynlluniau peilot i'w gweithredu. Mae trafod ag arweinwyr byd eraill fel Canada hefyd wedi dangos bod angen i unrhyw ddull fod yn gymesur ac yn berthnasol i'r effaith y mae'n ceisio ei chyflawni.

Rydym yn parhau i ddysgu o'n tri chynllun peilot presennol ar gyfer cyllidebu ar sail, gan gydweithio ar draws y meysydd i rannu'r dysgu parhaus a llywio sut y gellir gwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach. Fel rhan o'u cynllun gwaith 2023, bydd ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn archwilio sut y gall offeryn fel cyllidebu ar sail rhyw ein cynorthwyo i gryfhau ein prosesau o ran y gyllideb a threthi. Byddwn yn rhoi diweddariad ar y gwaith hwn yn y Cynllun Gwella’r Gyllideb a gyhoeddir gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25.

**Argymhelliad 16. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am flaenraglen waith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, gan gynnwys yr allbynnau diriaethol y bydd ei waith yn eu cyflawni ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25.**

**Derbyn**

Rydym yn parhau i gydweithio â’r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i archwilio sut y gall y Grŵp ymgysylltu â’n prosesau o ran y gyllideb a threthi, ac ysgogi gwelliannau iddynt, gan hefyd helpu i weithredu’r Cynllun Gwella’r Gyllideb. Nodir cynnydd a dylanwad y Grŵp yn y Cynllun Gwella’r Gyllideb. Bydd manylion cynllun gwaith 2023 yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we’r Grŵp yn fuan.

**Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu symleiddio cynlluniau cymorth ariannol, o dan Siarter Fudd daliadau Cymru arfaethedig, ac yn defnyddio dull carlam i ddatblygu proses ymgeisio unedig ar gyfer grantiau datganoledig a chynlluniau cymorth ariannol.**

**Derbyn**

Elfen ganolog o'n gwaith i symleiddio system fudd-daliadau Cymru yw datblygu Siarter Fudd-daliadau. Rydym wedi llunio Siarter ddrafft sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer system fudd-daliadau deg i Gymru yn seiliedig ar hawliau. Cafodd ei chydgynhyrchu â rhanddeiliaid o Weithgor Pwyslais ar Incwm Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yn parhau gydag awdurdodau lleol ar y cynlluniau gweithredu ar gyfer y Siarter yr ydym yn anelu at ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon.

Mae Llywodraeth Cymru a'n partneriaid wedi ymrwymo i weithio tuag at system fudd-daliadau i Gymru sydd ag un pwynt cyswllt fel mai unwaith yn unig y mae'n rhaid i unigolyn adrodd ei hanes. Byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i wella eu systemau prosesu, sicrhau mwy o gysondeb ac archwilio'r posibilrwydd ar gyfer pasbortio awtomatig pan fo modd.

Mae ein gwaith hyd yma wedi datgelu nifer o rwystrau ymarferol, gan gynnwys rhannu data ac anghysondeb mewn systemau TG. Bydd angen datrys y rhain cyn y gallwn gyflwyno proses ymgeisio unedig ar gyfer grantiau a chynlluniau cymorth ariannol datganoledig. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol fel Sefydliad Bevan a Policy in Practice i nodi datrysiadau.

**Argymhelliad 18. Yng ngoleuni'r cynnydd mewn costau byw, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r cynlluniau cymorth ariannol presennol i sicrhau bod y trothwyon cymhwystra yn addas i'r diben ac nad ydynt yn eithrio pobl agored i niwed sydd ar ymylon cynlluniau cymorth.**

**Derbyn**

Mae'r argyfwng costau byw wedi amlygu bod yna lawer o bobl ag incwm uwch na'r trothwy ar gyfer hawlio budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd sy'n ei chael yn anodd fforddio costau byw sylfaenol. Fel rhan o'r gwaith i symleiddio system fudd-daliadau Cymru, rydym yn edrych ar gynlluniau unigol i sicrhau bod meini prawf cymhwystra yn syml, wedi'u diffinio'n glir, a bod yr angen i wneud penderfyniadau yn ôl disgresiwn yn cael ei ddileu.

Mae gweithgor wedi'i sefydlu i adolygu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim mewn ysgolion uwchradd. Yn ein rhaglen waith ar gyfer 'Treth Cyngor Decach', rydym yn ystyried sut i wella Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel. Byddwn hefyd yn ymchwilio i ddichonoldeb estyn meini prawf cymhwystra holl gynlluniau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u clustnodi i bobl sy'n derbyn budd-dal sy'n dibynnu ar brawf modd.

Mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw, sy'n cynnwys ystod o sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sy'n ei chael yn anodd ymdopi â chostau byw. Bydd y Grŵp yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ac eraill ynglŷn â sut mae'n credu y dylem barhau i liniaru effeithiau'r argyfwng costau byw, a mynd i'r afael â nhw. Mae'r Grŵp yn annibynnol, felly ei argymhellion ei hun fydd pob argymhelliad, ond gallai wneud awgrymiadau yn ymwneud â chymorth ariannol.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau brys i fynd i'r afael â'r effaith anghyfartal ar rywedd yn sgil costau byw cynyddol, ac yn enwedig, yn cynnal adolygiad o'r model gofal plant am ddim presennol i asesu ei effeithlonrwydd ac yn annog ei ehangu ymhellach.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Rydym yn ymwybodol iawn o effeithiau'r argyfwng costau byw ar deuluoedd ledled Cymru ac yn enwedig yr effaith ar fenywod, sy'n aml yn ysgwyddo cyfrifoldebau gofalu ehangach a chyfrifoldebau eraill o fewn y teulu a'r cartref. Rydym wedi mynd ati i geisio lleddfu'r effeithiau ar y rhai sydd fwyaf mewn angen o fewn cyfyngiadau'r setliad ariannol presennol a byddwn yn parhau i fynnu bod Llywodraeth y DU yn gwneud mwy drwy ei datganiadau cyllideb a'i dyraniadau cyllido. Rydym wedi ehangu ein Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 3-4 mlwydd oed i gefnogi teuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, ac rydym wedi ymrwymo i ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar i bob plentyn dwy oed drwy gynyddu nifer y plant sy'n elwa o'n rhaglen Dechrau'n Deg a'r gofal plant o ansawdd uchel y mae'n ei ddarparu. Er ein bod yn monitro effeithiolrwydd y ddwy raglen, nid oes bwriad ar hyn o bryd i gynnal adolygiad ehangach o'n cymorth ar gyfer gofal plant wedi'i gyllido, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Mae ystadegau ar y cynnydd o ran Dechrau'n Deg ar gael yn flynyddol, ac mae adroddiadau gwerthuso blynyddol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn cael eu cyhoeddi ers 2018. Byddwn yn parhau i gefnogi plant a theuluoedd, yn enwedig y rhai mewn angen, a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i fynd ymhellach gyda'r ymrwymiadau hyn pan fydd adnoddau yn ein galluogi i wneud hynny.

**Argymhelliad 20. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru:**

- **yn adolygu trothwy cymhwysedd y Lwfans Cynhaliaeth Addysg; ac**
- **yn ystyried cynyddu gwerth y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.**

**Derbyn**

Yn unol ag argymhellion adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y Gyllideb Ddrafft, mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhelliad i gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn llywio unrhyw newidiadau i Gynllun y Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

**Argymhelliad 21. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu datblygu rhaglen Cartrefi Clyd newydd i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ac i atal pobl sy'n agored i niwed rhag disgyn i dlodi tanwydd.**

**Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo o hyd i'r Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer effeithlonrwydd ynni drwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd wedi'i gynyddu £3 miliwn, i £30 miliwn yn 2022/2023 ac mae disgwyl iddo gynyddu i £35 miliwn ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol nesaf.

Rhaid i unrhyw ymyrraeth yn y dyfodol i gefnogi'r rhai mewn tlodi tanwydd ystyried ymhellach yr angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy ddatgarboneiddio'r sector tai, a gwnaeth Datganiad Llafar y Gweinidog Newid Hinsawdd ar 8 Tachwedd egluro sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd ar draws pob deiliadaeth.

Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau yn lle rhai presennol a gweithredu dull integredig, gan ymateb hefyd i'r argyfwng costau byw presennol. Ein bwriad o hyd yw mabwysiadu dull ffabrig yn gyntaf, y gwaethaf yn gyntaf a charbon isel, gan gyflwyno mesurau i wella effeithlonrwydd ynni yr aelwydydd incwm isel sydd leiaf thermol effeithlon yng Nghymru. Gwneir hyn mewn dwy ran:

- Bydd rhan un yn cynnwys caffael gwasanaeth seiliedig ar alw yn lle'r un presennol, er mwyn sicrhau parhad i helpu'r rhai sydd leiaf abl i dalu i ymateb i'r argyfwng costau byw. Bydd hyn hefyd yn sicrhau proses bontio gyfiawn a fforddiadwy i gartrefi carbon isel.
- Bydd rhan dau yn cynnwys datblygu dull stoc dai gyfan o ddatgarboneiddio er mwyn darparu strategaeth hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd a datgarboneiddio ar gyfer y sector.

**Argymhelliad 22. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio sut y mae'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu yn y Gyllideb Ddrafft yn cyd-fynd â'r chwe blaenoriaeth ar gyfer GIG Cymru a nodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a pha feysydd y bydd yn eu dadflaenoriaethu fel rhan o'r broses hon.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Gweinidog, rydym wedi rhoi arweiniad clir ar y disgwyliadau o ran yr hyn sydd i'w gyflawni, yn fframwaith cynllunio cenedlaethol y GIG ar gyfer 2023-24. Mae buddsoddiad ychwanegol wedi'i nodi ar gyfer y mwyafrif o'r meysydd blaenoriaeth i gefnogi'r heriau yn y system:

- Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng gyda £25 miliwn o gyllid cylchol, drwy Raglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Mae £20 miliwn o'r buddsoddiad hwn wedi'i ddyrannu'n uniongyrchol i fyrddau iechyd i gyflawni eu cynlluniau lleol ar gyfer rhaglen y chwe nod.
- I adfer gofal a gynlluniwyd, gan gynnwys diagnosteg a llwybrau canser, nodwyd buddsoddiad cylchol blynyddol o £170 miliwn gyda £15 miliwn yn ychwanegol ar gyfer trawsnewid. Mae £120 miliwn wedi'i roi i fyrddau iechyd i gyflawni eu cynlluniau lleol. Caiff y £65 miliwn sy'n weddill ei roi i gefnogi diagnosteg, trawsnewid a gweithio rhanbarthol.

- Mae gwaith yn parhau ar fynediad at ofal sylfaenol drwy'r rhaglen strategol ar gyfer gofal sylfaenol. Ar ben hynny, mae £5 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddarparu i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a chynyddu mynediad at ofal yn y gymuned i helpu pobl i barhau i fod yn weithgar ac yn annibynnol.
- Mae gan wasanaethau iechyd meddwl gronfeydd wedi'u targedu i gefnogi mynediad ac ailgynllunio gwasanaethau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Mae cyflawni hyn yn faes blaenoriaeth. Cynyddodd y galw yn sylweddol yn ystod ac ar ôl Covid.
- Y maes blaenoriaeth arall yw gwella'r llif rhwng llwybrau iechyd a gofal cymdeithasol gan helpu i ryddhau cleifion yn amserol. Cefnogir hyn drwy gydfuddsoddi drwy'r Gronfa Integredig Rhanbarthol drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae'r buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei flaenoriaethu ar gyfer y meysydd hyn ar ôl asesu'r risg o'u heffaith ar ofal cleifion yn sgil effaith barhaus y pandemig. Mae'r buddsoddiad wedi'i dargedu ar gyfer materion cyfredol e.e. mynd i'r afael â'r ôl-groniad o achosion ar gyfer gofal a gynlluniwyd ond hefyd trawsnewid, gweithio'n wahanol, cynyddu mynediad a gweithio ar draws y system gyfan. Mae gan bob un o'r prif flaenoriaethau gynlluniau cenedlaethol sy'n dangos yn glir yr hyn a ddisgwylir.

**Argymhelliad 23. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau y mae'n disgwyl i sefydliadau'r GIG a darparwyr gofal cymdeithasol eu cyflawni gyda'r cyllid ychwanegol y mae wedi'i ddyrannu ar gyfer 2023-24.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

O ystyried amgylchedd cynllunio cymhleth ein gwasanaethau GIG ar hyn o bryd, yn y tymor byr a'r tymor canolig, a chan gydnabod y pwysau ariannol a'r pwysau ar y system, mae fframwaith cynllunio'r GIG yn nodi nifer llai o flaenoriaethau y mae angen eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef:

- Datblygu perthynas agosach â Llywodraeth Leol i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, ac ymdrech i fynd ymhellach ac yn gynt i ddarparu gwasanaeth gofal cymunedol integredig i Gymru.
- Gwella mynediad at wasanaethau ymarfer meddygol, deintyddiaeth, optometreg, a fferylliaeth.
- Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng.
- Gofal a gynlluniwyd ac adferiad, gan gynnwys y niferoedd sy'n aros am brofion diagnostig.
- Lleihau ôl-groniad cleifion sy'n aros yn eu llwybr canser.
- Gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a llesiant, a hybu atal ynddynt, ar bob lefel, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Mae'r fframwaith yn cynnwys yr angen i weithredu cyfres o Ddatganiadau Ansawdd sy'n nodi sut beth yw gwasanaethau clinigol da fel rhan o'r Fframwaith Clinigol

Cenedlaethol ac i helpu i gyflwyno'r Ddyletswydd Ansawdd. Yn ogystal, rhaid i ddulliau digidol, arloesi, technoleg a thrawsnewid fod yn sail i ddarparu'r gofal a'r gwasanaethau gorau posibl i gleifion, ochr yn ochr â gweithlu, llesiant a rheolaeth ariannol gadarn.

Rydym wedi buddsoddi mewn gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng gyda £25 miliwn o gyllid cylchol, drwy Raglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. Bydd canlyniadau yn cynnwys:

- Mwy o alwadau gofal sylfaenol y tu allan i oriau yn arwain at hunanofal neu ymateb wyneb yn wyneb heb fod angen mynd i Adran Achosion Brys.
- Cynyddu presenoldeb mewn canolfannau gofal sylfaenol brys bob mis, gan helpu i leihau'r pwysau ar Adrannau Achosion Brys.
- Rheoli mwy o gleifion 999 yn ddiogel dros y ffôn heb fod angen gofal ysbyty.
- Llai o deithiau ambiwlans i'r ysbyty o gymharu â chyn y pandemig.
- Llai o dderbyniadau brys i'r ysbyty o gymharu â chyn y pandemig.

Mae llawer o arian hefyd wedi cael ei ddarparu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i helpu partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gydweithio'n agosach a datblygu chwe model cenedlaethol o ofal integredig a fydd yn cynnig gwasanaethau ataliol a di-dor i bobl yn y gymuned.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol bum mlynedd a lansiwyd yn 2022/23, gan ddarparu £144.7 miliwn y flwyddyn o gyllid refeniw i gefnogi trawsnewid a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso werth £50 miliwn sydd newydd ei sefydlu. Y chwe model cenedlaethol o ofal integredig yw:

- **Cydlynu cymunedau ataliol** (cefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain drwy wasanaethau integredig mewn un man ynghyd â gweithgareddau fel presgripsiynu cymdeithasol a helpu pobl i gysylltu â'r gwasanaeth gofal a chymorth sy'n lleol iddyn nhw).
- **Gofal cymhleth yn nes at adref** (helpu pobl i gadw'n iach gartref ac atal yr angen i fynd i'r ysbyty, drwy ofal seiliedig ar le i'r rhai ag anghenion cymhleth).
- **Hybu iechyd a llesiant emosiynol da** (helpu pobl i gysylltu â gwasanaethau a chyfleoedd yn lleol drwy un pwynt mynediad di-dor i atal iechyd emosiynol gwael rhag gwaethygu i gyflwr iechyd meddwl a/neu iechyd corfforol mwy difrifol).
- **Cymorth therapiwtig i blant sy'n derbyn gofal a helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd** (gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n hysbys i wasanaethau gofal cymdeithasol i geisio atal teuluoedd rhag chwalu a gwella llesiant emosiynol ac ymddygiadol mwy tymor hir plant sy'n derbyn gofal).
- **Cartref o'r ysbyty** (helpu pobl i symud o'r ysbyty yn nes at y cartref, i'w cymuned, yn ddiogel ac yn gyflym gyda'r nod o atal y dadgyflyru niweidiol sy'n digwydd yn sgil cyfnodau estynedig diangen yn yr ysbyty. Rhan allweddol a chanolog yw rôl yr Aseswr Dibynadwy).
- **Atebion sy'n seiliedig ar lety** (helpu i ddatblygu cyfleusterau tai a phreswyl sy'n helpu pobl i gadw'n iach a byw'n annibynnol yn hirach).

Mae Fframwaith Canlyniadau cynhwysfawr wedi'i ddatblygu ar gyfer y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol sy'n nodi'r canlyniadau lefel uchel sy'n canolbwyntio ar y person a'r rhai ar gyfer grwpiau poblogaeth blaenoriaeth ar gyfer pob un o'r modelau gofal integredig. Mae set o ddangosyddion a mesurau perfformiad lefel uchel, sy'n ystyried y fframweithiau a'r mesurau y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid eisoes yn eu casglu'n rheolaidd neu'n eu defnyddio, yn cael ei nodi yn y Fframwaith Canlyniadau. Mae proses fonitro ac adrodd gadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'i sefydlu. Mae disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu adroddiadau chwemisol ar gynnydd y gweithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy'r Gronfa.

Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn dull o adfer sy'n seiliedig ar werth yn y tymor canolig, gan ganolbwyntio ar wella'r canlyniadau sy'n bwysig i gleifion; mae £19 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn yn 2023-24. Bydd y dyraniad hwn hefyd yn helpu i adfer y GIG, gyda phwyslais ar ddarparu ymyriadau gwerthfawr sy'n sicrhau gwell canlyniadau i gleifion ac yn cefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, ac yn lleihau'r amseroedd aros am driniaeth yn y tymor canolig. Bydd y buddsoddiad hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau sy'n bwysig i gleifion, a bydd yn ategu'r gwaith o weithredu cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ddelio â'r cleifion sy'n aros am driniaeth.

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol yn ymrwymiad allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu gyda £70 miliwn o gyllid ar gael i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd ar gyfer 2023-24, i barhau i gyflawni ein hymrwymiad.

Bydd arian ar gael i gomisiynwyr o 1 Ebrill, a byddem yn gobeithio gweld pob gweithiwr yn cael y codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol cyn gynted â phosibl ond cyn diwedd Mehefin 2023.

Mae'r cynnydd sylweddol yn setliad llywodraeth leol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ymateb i'r pwysau yr ydym yn eu gweld mewn gofal cymdeithasol. Mae'n darparu ar gyfer ein hamcangyfrifon cyfredol o gost y codiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2023-2024.

Cyflwynwyd Grant y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018-19 ac mae wedi cael ei ddarparu fel grant wedi'i neilltuo yn flynyddol i'r awdurdodau lleol. Yn 2023-24, mae'n £45 miliwn. Defnyddir y grant i gefnogi amrywiaeth o ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn yr awdurdodau lleol megis gwasanaethau plant, heriau staffio, gwasanaethau i bobl hŷn a gofal dementia.

Fis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched. Dyma oedd y cam cyntaf tuag at drawsnewid y gofal y mae menywod yn ei gael yng Nghymru. Mae'r datganiad ansawdd yn nodi'r hyn y disgwylir i'r GIG ei ddarparu i sicrhau gwasanaethau iechyd o ansawdd da i gefnogi menywod a merched drwy gydol eu bywydau.

Fis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y GIG y cam darganfod o Gynllun Iechyd Menywod y GIG a ddatblygwyd gyda chyfraniad sylweddol gan fenywod yng Nghymru. Mae adroddiad y cam darganfod yn nodi cyflwr y genedl o ran iechyd menywod yng

Nghymru, gan gyfuno adolygiad o’r dystiolaeth sy’n ymwneud ag iechyd menywod â lleisiau menywod a merched yng Nghymru. Ar ôl ymgynghori â mwy na 3,800 o fenywod, mae’r adroddiad hwn yn ceisio gosod y sylfeini ar gyfer datblygu Cynllun Iechyd Menywod i Gymru.

Cyhoeddi’r cam cyntaf o’r Cynllun Iechyd Menywod yw dechrau sgwrs a chyfamod â menywod. Mae rhwydwaith iechyd menywod yn yr arfaeth o fewn Gweithrediaeth y GIG a fydd yn gyfrifol am ddatblygu’r cynllun iechyd menywod i’w roi ar waith yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun hwn yn mabwysiadu dull ‘Cymru Iachach’ o gydgynhyrchu ac yn dangos ymrwymiad clir i’r Cynllun Iechyd Menywod gael ei arwain gan leisiau menywod a merched yng Nghymru.

Fel rhan o’r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched, dyma’r ymrwymiadau ariannol angenrheidiol i ddatblygu a chynnal y gwasanaethau presennol:

- Parhau i ariannu nyrsys endometriosis a chydlynwyr iechyd y pelfis ym mhob bwrdd iechyd (£1 miliwn);
- Cytuno ar gyllid trawsnewid i barhau i gefnogi’r ymgyrch Mislif Fi ar gyfer 2023/2024 (£194,000);
- Ymrwymiad i gefnogi ymchwil dulliau ansoddol a chymysg ar bynciau allweddol sy’n cefnogi anghenion menywod a merched (£1 miliwn);
- Datblygu Bwrdd Pontio Iechyd Menywod i hwyluso’r gwaith o greu’r Rhwydwaith Iechyd Menywod a datblygu a chyflawni Cynllun Iechyd Menywod 10 Mlynedd GIG Cymru (£150,000).

**Argymhelliad 24. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal asesiad o’r cyllid y mae wedi’i ddyrannu i wella effeithlonrwydd yn y GIG gyda’r bwriad o leihau pwysau yn y tymor hir.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Mae dyraniadau cyllid i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd yn cael eu darparu i gefnogi meysydd menter a fydd yn anelu at fynd i'r afael â ffyrdd newydd o weithio a'u treialu tra'n pwysleisio'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu fel ysgogwr allweddol ar gyfer y canlyniad iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn benodol, ar ben y cyllid refeniw cylchol o £170 miliwn ar gyfer adferiad y GIG mae cronfa drawsnewid gylchol o £15 miliwn i gefnogi prosiectau trawsnewid lleol a chenedlaethol. Mae'n anelu at brofi a darparu gwasanaethau'n wahanol ar gyfer model mwy cynaliadwy yn y dyfodol. Rhoddir canllawiau mai dim ond hyd at dair blynedd (a adolygir bob blwyddyn fel isafswm) y darperir yr arian ychwanegol gyda'r disgwyl y bydd y bwrdd iechyd yn cymryd drosodd y cyllid o'r arbedion a wneir o'r prosiect (prawf o gysyniad).

Disgwylir i sefydliadau'r GIG sicrhau effeithlonrwydd o 2 y cant o leiaf y flwyddyn nesaf, a disgwylir i hyn gael ei adlewyrchu yn eu cynlluniau sydd i fod i gael eu cyflwyno ym mis Mawrth.

**Argymhelliad 25. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i ddangos sut y mae'r dyraniadau ar gyfer 2023-24:**

- **yn lleddfu pwysau staffio ar unwaith ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol; a**
- **yn sicrhau gwelliannau i'r materion recriwtio a chadw a wynebir yn y meysydd hynny.**

**Derbyn**

Bydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru yn cael yr amcangyfrif o £70 miliwn i roi'r codiad o £10.90 yr awr yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith gyda gweithwyr ar eu hennill erbyn mis Mehefin 2023. Mae'r cynnydd sylweddol yn setliad llywodraeth leol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ymateb i'r pwysau yr ydym yn eu gweld mewn gofal cymdeithasol. Bydd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn sicrhau cynnydd sylweddol mewn tâl i lawer o weithwyr ac yn gwneud gwaith gofal cymdeithasol yn fwy deniadol. Dylai'r codiad pellach hwn helpu hefyd i gefnogi recriwtio a chadw staff ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Rydym wrthi hefyd yn comisiynu gwerthusiad annibynnol i archwilio effeithiau a llwyddiant y gwaith gweithredu. Bydd yr ymchwil hon yn ein helpu i ddysgu a gwneud gwelliannau i'r ffyrdd y mae'r gwaith cyflwyno wedi'i gymhwyso ac i weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gwella prosesau.

Rydym yn gwybod y gwahaniaeth y gall y Cyflog Byw Gwirioneddol ei wneud i weithwyr ar gyflogau isel, ond nid ydym yn disgwyl i'r Cyflog Byw Gwirioneddol ddatrys holl broblemau gweithlu'r sector. Er hynny, rydym yn credu ei fod yn gam cyntaf hanfodol ac yn fan cychwyn pwysig ar gyfer gwell amodau gwaith mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i weithio'n agos iawn gyda'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i edrych ar ragor o ffyrdd o wella telerau ac amodau gweithwyr gofal cymdeithasol ymhellach  Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i gyfleoedd i wella tâl salwch a datblygu Fframwaith Tâl a Chynnydd.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cytuno ar y lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad mewn hyfforddiant ac addysg ar gyfer GIG Cymru – cyllid o £281 miliwn yn 2023-24. Dyma fydd y nawfed flwyddyn yn olynol y bydd cyllid yn cynyddu, gan ddarparu'r nifer uchaf erioed o leoedd hyfforddi yng Nghymru a chyfrannu at gynaliadwyedd gofal iechyd yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i ddarparu £7 miliwn tuag at ein hymrwymiad i sefydlu ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru. Bydd yr ysgol feddygol newydd yn sicrhau ein bod yn dosbarthu cyfleoedd hyfforddi ac yn darparu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hyfforddedig ledled Cymru.

Mae strategaeth y gweithlu a gyhoeddwyd gan AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru yn amlinellu ein gweledigaeth a'n camau gweithredu hirdymor ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun tymor byrrach ar gyfer y gweithlu i helpu gyda'r pwysau presennol ar ein gweithlu. Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu ar 31 Ionawr.

Ochr yn ochr â buddsoddiad ychwanegol i gynyddu ein cyflenwad cartref o nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, rydym hefyd yn recriwtio nyrsys

rhyngwladol i gau'r bwlch swyddi gwag yn y tymor byr a'r tymor canolig. Cafodd dros 400 o nyrsys rhyngwladol eu recriwtio y llynedd drwy gam cyntaf rhaglen genedlaethol ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer recriwtio rhyngwladol pellach yn y cam nesaf.

Cyflwynwyd Grant y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018-19 ac mae wedi cael ei ddarparu fel grant wedi'i neilltuo yn flynyddol i'r awdurdodau lleol. Yn 2023-24, mae'n £45 miliwn. Defnyddir y grant i gefnogi amrywiaeth o ymyriadau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu yn yr awdurdodau lleol megis gwasanaethau plant, heriau staffio, gwasanaethau i bobl hŷn a gofal dementia. Nid yw'r meini prawf ar gyfer Grant y Gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol 2023-24 wedi'u pennu eto, ond mae'r adborth ar y defnydd o'r grant 2022-23 yn dangos sut y mae'r cyllid wedi'i ddefnyddio i wella gweithwyr gofal cymdeithasol i dalu a chefnogi recriwtio a chadw staff.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu cymwys, rydym yn darparu dros £1.4 miliwn yn 2023-24 i wella'r pecyn cymorth ariannol ar gyfer y radd Gwaith Cymdeithasol, ac yn parhau â'r cynnydd yn y bwrsari ar gyfer myfyrwyr newydd sy'n dechrau yn 2022 a chynnydd ar gyfer myfyrwyr presennol. Rydym wedi ariannu cynnydd o 50% i'r bwrsari israddedig a 90% am y bwrsari ôl-raddedig.

Rydym yn darparu cyllid o £7.1 miliwn i'r sector drwy grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, a weinyddir gan Gofal Cymdeithasol Cymru drwy'r awdurdodau lleol. Mae'r grant yn parhau i helpu i ariannu ystod o raglenni gwaith, gan gynnwys dysgu, datblygu a chymwysterau.

Bydd yr ymgyrch hysbysebu ar gyfer Wythnos Brentisiaethau ym mis Chwefror 2024 yn anelu at gynyddu recriwtio prentisiaethau gofal cymdeithasol. Mae ymgyrch sefydledig Llywodraeth Cymru sef Dewis Doeth yn rhoi ffocws ar brentisiaethau gofal cymdeithasol ac mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnal ymgyrch ar wahân ochr yn ochr â'r ymgyrch honno. Mae hyn yn hybu ymwybyddiaeth o'r sector gofal cymdeithasol i geiswyr gwaith.

**Argymhelliad 26. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi:**

- **diweddariad ar y defnydd o staff asiantaeth a locwm gan y GIG, gan gynnwys gwybodaeth am y mesurau y bydd yn eu mabwysiadu er mwyn lleihau'r ddibyniaeth arnynt ac effaith ddisgwyliedig y camau gweithredu ar wariant; a**
- **manylion y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lwfans blynyddol y dreth pensiwn o gofio ei effaith sylweddol ar weithlu'r GIG.**

**Derbyn**

Mae'r gwariant ar staff Asiantaeth wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gost hon wedi cyflymu yn ystod y pandemig ac wrth inni adfer gwasanaethau dewisol.

Ochr yn ochr â gwaith i manteisio i'r eithaf ar y defnydd o'n Gweithlu GIG craidd, mae gwaith ar y gweill i ddeall, lliniaru a mynd i'r afael â'r ddibyniaeth gynyddol ar y

gweithlu staff asiantaeth a gweithwyr locwm. Er y deellir bod y pwysau ar weithlu a gwasanaethau craidd y GIG dros y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod angen yr adnodd hyblyg ac ychwanegol hwn, cymerir camau eleni, yn unol â chynllun gweithredu ehangach ar gyfer gweithlu'r GIG, i ganolbwyntio ar weithlu mwy cynaliadwy yn y GIG yng Nghymru. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a Chyflogwyr y GIG.

Nid yw'r cynnydd yng ngwariant y GIG ar y gweithlu staff asiantaeth dros y blynyddoedd diwethaf yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Yn hytrach, mae angen cyfeirio buddsoddiad at gynyddu a defnyddio gweithlu craidd a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru yn effeithiol. Bydd hyn yn gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng sicrhau digon o gapasiti i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol, tra bo camau gweithredu ar y gweill sy'n darparu gweithlu cynaliadwy a gwerth am arian yn y tymor hwy.

Nid yw trethu pensiynau **wedi'i ddatganoli** i Lywodraeth Cymru a rhaid i Lywodraeth y DU fynd i'r afael ag ef. O gofio'r effaith y mae trethu pensiynau'n ei chael ar weithlu'r GIG yng Nghymru, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghyd â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU ar y mater hwn nifer o weithiau yn ei hannog i ddod o hyd i ateb parhaol. Yn y cyfamser, mae cyflogwyr GIG Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i sefydliadau'r GIG yn eu hatgoffa o hyblygrwydd pensiwn presennol y GIG.

**Argymhelliad 27. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol i gyllido cost gynyddol y ddarpariaeth gofal cymdeithasol ac i leddfu'r pwysau ar y gweithlu.**

**Derbyn**

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i wrthdroi'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol sydd wedi'u targedu'n benodol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried unwaith eto sut y gellid sicrhau cyllid ychwanegol i gefnogi costau gofal cymdeithasol yn y dyfodol mewn ffordd gynaliadwy a bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar yr adeg briodol. Caiff y gwaith ei lywio gan yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan y Grŵp Arbenigol 'Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru', a wnaeth rai argymhellion penodol yn y maes hwn gan gynnwys cynnal 'sgwrs genedlaethol' dryloyw a gonest am y cyllid y mae ei angen i ddarparu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

**Argymhelliad 28. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus i lunio cynllun cynhwysfawr, tymor hir ar gyfer y gweithlu gwasanaethau cyhoeddus ac yn rhoi diweddariad ar ei ddatblygu.**

**Derbyn mewn Egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu diddordeb y Pwyllgor mewn gweithlu effeithiol a chynhyrchiol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac yn cytuno bod

cynyddu ein gallu a rennir wrth gynllunio'r gweithlu yn hwylusydd pwysig ym maes effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

Mae gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynllun strategol i'r gweithlu fel rhan o LIC 2025: ein cynllun gweithredu ar gyfer newid a gwella'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf fel y gallwn gefnogi'r Gweinidogion yn effeithiol a chyflawni dros Gymru mewn cyd-destun ariannol a byd-eang fwyfwy heriol.

Bydd hyn yn cwmpasu cynllun galluoedd newydd i'r sefydliad fynd i'r afael â bylchau allweddol o ran sgiliau ac anghenion datblygu, yn ogystal â chynllun darparu adnoddau fforddiadwy, ein cynllun gweithredu amrywiaeth a chynhwysiant a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein hymrwymiad i fod yn sefydliad dwyieithog.

Mae gan rannau eraill o'r sector cyhoeddus gynlluniau hirdymor i'r gweithlu ar waith sy'n canolbwyntio ar eu hanghenion a'u heriau penodol i'r gweithlu. Mae'n debygol y bydd gan rai sefydliadau'r sector cyhoeddus lefel fwy amrywiol o aeddfedrwydd o ran cynllunio'r gweithlu yn strategol. Er enghraifft, mae gan GIG Cymru strategaeth gweithlu 10 mlynedd sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau manwl i'r gweithlu.

Mae nifer o grwpiau partneriaeth a sianeli eisoes ar waith lle mae materion sy'n ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu, yn cael eu trafod a dysgu'n cael ei gyfnewid. Mae'r rhain yn cynnwys Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, sy'n strwythur partneriaeth gymdeithasol teirochrog o'r undebau llafur, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru sy'n cwmpasu'r gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru a'r fforwm ar gyfer materion traws-gyhoeddus y gweithlu. Yn ogystal, mae Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus yn dod â Phrif Weithredwyr prif gyrff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru at ei gilydd.

Byddwn yn defnyddio cyfarfod o Fforwm yr Arweinwyr Cyhoeddus yn y dyfodol i drafod argymhelliad y Pwyllgor, i asesu aeddfedrwydd cynllunio'r gweithlu ar draws sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus ac i ystyried y camau y gallai fod eu hangen ar gyfer ymagwedd fwy integredig ar draws Cymru. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn dilyn y drafodaeth hon.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-0754-23

Peredur Owen Griffiths AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Y Senedd,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

09 Mawrth 2023

Annwyl Peredur,

Roeddwn am roi gwybod i'r Pwyllgor fod Trysorlys ei Mawrhydi wedi cymeradwyo blaenswm o £150m o Gronfa Hapddigwyddiadau'r DU i Swyddfa Cymru yn ddiweddar. Bydd y blaenswm hwn yn galluogi Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fodloni'r rhagolwg o ran gofynion arian parod Llywodraeth Cymru cyn i Senedd y DU gymeradwyo Amcangyfrifon Atodol 2022-23 a ddisgwylir ddiwedd mis Mawrth.

Oherwydd bod yr Amcangyfrifon Atodol yn hwyr, nid yw'r terfyn arian parod a awdurdodwyd gan Brif Amcangyfrifon 2022-23 ym mis Gorffennaf yn ddigon i gwmpasu'r arian parod sydd ei angen cyn i'r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo ym mis Mawrth. Gan nad oes gennym reolaeth dros yr amserlen gymeradwyo honno, rydym wedi gofyn am flaenswm ar gyfer y bwlch a amcangyfrifir yn ein gofynion arian parod.

Mae'r Gronfa Hapddigwyddiadau yn weithdrefn safonol yn y DU i gael gafael ar arian i fodloni'r angen tymor byr cyn i'r Amcangyfrif Atodol gael ei gymeradwyo a chaiff ei ad-dalu unwaith y caiff yr Amcangyfrif Atodol ei gymeradwyo. Bydd Swyddfa Cymru yn rhoi cyfrif am y blaenswm a'r ad-daliad.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Archwilydd Cyffredinol Cymru er gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

JH/PO/0083/23

Peredur Owen Griffiths AS
Y Pwyllgor Cyllid
Y Senedd
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Mawrth 2023

Annwyl Peredur,

Yn ystod ymddangosiad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gerbron y Pwyllgor hwn ar 1 Mawrth, gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r Gweinidog ynghylch gallu awdurdodau lleol i gefnogi ein gwesteion o Wcráin. Mae'r Gweinidog wedi gofyn imi roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y materion hyn.

Yn ystod 2022-23, rydym wedi gallu sicrhau bod cyllid refeniw o £112m ar gael i gefnogi ein gweithgareddau dyngarol mewn ymateb i'r gwrthdaro yn Wcráin. Roedd hyn yn cynnwys £20m drwy'r gyllideb atodol gyntaf yn ogystal â £92m pellach drwy ein hail gyllideb atodol.

Yn ystod 2022-23, rydym wedi cael £74.4m gan Lywodraeth y DU ar ffurf tariffau integreiddio, tariffau addysg a thaliadau diolch am yr amser a dreulir yn llety cychwynnol Llywodraeth Cymru er mwyn gwrthbwyso rhywfaint o'r costau hyn. Mae'r balans (dros £37m) wedi dod o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

Mae cyfran fawr o'r costau yr ydym yn eu hwynebu yn ymwneud â chostau llety a chymorth cofleidiol sy'n gysylltiedig â'n llwybr uwch-noddwr. Fe wnaethom sefydlu'r llwybr uwch-noddwr am ein bod am leihau'r risgiau diogelu sy'n rhan annatod o'r llwybr noddi unigol a lleihau'r rhwystrau i Wcreiniaid – menywod a phlant yn bennaf – sy'n ffoi rhag y gwrthdaro angheuol hwn ac sy'n chwilio am noddfa yma yng Nghymru. Roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig blaenoriaethu cyllid i gefnogi'r bobl sy'n cyrraedd o Wcráin er mwyn cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i fod yn Genedl Noddfa (fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).

Mae disgwyl i'r dyraniad o £112m yn 2022-23 fod yn ddigon i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'n hymateb dyngarol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r dyraniad hwn yn caniatáu inni dalu costau canolfannau croeso, llety cychwynnol, canolfannau cyrraedd a'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


ganolfan gyswllt. Mae hefyd yn cyfrif am y tariffau integreiddio ac addysg o ganlyniad i awdurdodau lleol yn lletya’r bobl sy’n cyrraedd o Wcráin sy’n cynrychioli cyfran fawr o’r costau hyn.

Rydym wedi gweithio’n agos gyda’n partneriaid mewn awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth i’n gwesteion o Wcráin. Mae awdurdodau lleol yn hawlio am y costau sy’n gysylltiedig â gwesteion yn eu hardaloedd drwy ffurflenni hawlio grant chwarterol. Pan fo gwesteion yn cael eu lletya mewn llety a ddarperir drwy ein llwybr uwch-noddwr, darperir dyraniad y cytunwyd arno i awdurdodau lleol i gwrdd â chostau cymorth cofleidiol. Mae pob cost arall, gan gynnwys llety a bwyd, yn cael ei thalu’n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Pan fydd Wcreiniaid yn symud ymlaen o’n llety cychwynnol (naill ai i lety yn y sector rhentu preifat neu i lety wedi’i gynnal), mae awdurdodau lleol yn cael cyfran pro rata o’r tariff integreiddio i gefnogi’r unigolion hynny. Roedd tariffau integreiddio gan Lywodraeth y DU yn £10,500 y pen ar gyfer y rheini a gyrhaeddodd yn 2022 ond maent wedi gostwng i £5,900 ar gyfer pawb sy’n cyrraedd ar 1 Ionawr 2023 neu ar ôl y dyddiad hwnnw. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn o ran sut mae’r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio. Mewn rhai achosion, mae wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu cefnogaeth i’r rhai sy’n symud i’r sector rhentu preifat, er enghraifft, drwy ddarparu cyllid ar gyfer y taliadau bond a rhent ymlaen llaw sy’n ofynnol. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi defnyddio’r arian hwn i ychwanegu at y taliadau diolch i letywyr er mwyn annog trefniadau lletya mwy hirdymor sy’n lleihau’r pwysau ar y galw am dai.

Yn sgil y galw ehangach am dai a’r angen i gyflwyno mwy o gartrefi o ansawdd da ar gyflymder i gefnogi pobl i symud i lety tymor hwy lle gallant setlo a dechrau ailadeiladu eu bywydau, mae’r Gweinidog Newid Hinsawdd hefyd wedi sefydlu’r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol. Bydd y cyllid hwn yn cefnogi awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddarparu 1,300 o gartrefi ychwanegol o fewn y 18 mis nesaf i bawb sydd angen tai, gan gynnwys ein gwesteion o Wcráin.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copi at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a’r Gweinidog Newid Hinsawdd

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Mawrth 2023

Annwyl Peredur

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 1 Mawrth, ynghylch craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2022-23 Llywodraeth Cymru, cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i roi nodyn i'r Pwyllgor ar effaith chwyddiant ar y rhaglen gyfalaf ysgolion ac addysg.

Fel y nodwyd yn fy mhapur tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, ac yn fy sesiwn dystiolaeth gerbron y Pwyllgor ar 11 Ionawr, mae chwyddiant yn cael effaith ar bob rhan o fy mhortffolio gan gynnwys ar y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - ein rhaglen i wella a datblygu ysgolion a cholegau ledled Cymru. Nid yw hyn yn unigryw i'r Rhaglen hon; mae'r rhain yn bwysau cyffredinol a wynebir ar draws y sector cyhoeddus.

Mae costau ynni uwch a chwyddiant ar draws pob gwasanaeth wedi effeithio ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach. Mae chwyddiant yn effeithio ar gostau prosiectau addysg bellach ac ysgolion newydd, gyda'r costau ynni uwch yn cael effaith ganlyniadol ar weithgynhyrchu a chludo deunyddiau, cyfarpar a llafur. Mae'r gwaith wedi mynd yn ei flaen yn dda o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Er hynny, mae costau'r deunyddiau adeiladu a'r llafur sydd ar gael wedi codi tua 15%. O ganlyniad, rydym wedi gweld rhai prosiectau mewn awdurdodau lleol yn arafu yn sgil craffu ar dendrau masnachol a gyflwynwyd ac, mewn rhai achosion, ail-dendro. O dan ddull datblygu ar y cyd y Rhaglen, rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadu addysg bellach i reoli'r costau uwch hyn, gan gynnwys rhannu costau cynnydd dilys mewn costau contractiol (ar gyfraddau ymyrraeth mewn prosiectau y cytunir arnynt – 65% Llywodraeth Cymru / 35% partneriaid cyflawni fel arfer) yn ôl y galw.

Mae'n anochel y bydd y cynnydd hwn mewn costau yn arwain at lai yn cael ei ddarparu am yr un dyraniad cyllideb. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo o hyd i fuddsoddi mwy nag £1.5 biliwn yng ngham nesaf y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac mae dyraniad cyllideb cyfalaf cyffredinol Seilwaith Addysg ar gyfer 2022-23 yn £0.3 biliwn, sy'n gynnydd o dros 30% o gymharu â llinell sylfaen y Rhaglen ar gyfer 2021-22. Bydd y cynnydd hwn yn y gyllideb, sy'n parhau ar lefel debyg ar gyfer 2023-24 a 2024-25, yn helpu i liniaru effaith chwyddiant.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cyhoeddi £60m yn ychwanegol i awdurdodau lleol (£50m) a sefydliadau addysg bellach (£10m) yn 2022-23 i gefnogi cyfalaf cynnal a chadw, gan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

flaenoriaethu gwaith effeithlonrwydd ynni ar draws ysgolion a cholegau yng Nghymru a chefnogi pwysau costau byw drwy leihau ynni a datgarboneiddio yn unol â'n Strategaeth Sero Net.

Mewn ymateb i anghenion ein partneriaid cyflawni am raglen fwy hyblyg, rwyf wedi cyflwyno rhaglen dreigl i wella effeithlonrwydd a darpariaeth ar gyfer partneriaid a Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cryfhau un o nodweddion allweddol y Rhaglen, sef datblygu prosiectau ar gyflymder ein partneriaid cyflawni ac yn unol â'u blaenoriaethau. Mae rhoi rhaglen dreigl fwy deinamig ar waith yn rhoi cyfle i'n partneriaid ac i Lywodraeth Cymru fod yn fwy ymatebol i bwysau cyllidebol cadarnhaol a negyddol drwy gyflymu ac arafu prosiectau sydd yn yr arfaeth yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

Rhagwelir y bydd y rhaglen yn cael ei chyflymu i ryw raddau drwy'r rhaglen dreigl. Fodd bynnag, bydd pwysau o ran costau sy'n gysylltiedig â phrisiau ynni a chostau byw cyffredinol uwch yn naturiol yn cael effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru a hefyd ar gyllidebau ein partneriaid cyflawni. O ran y fframwaith cyflawni datblygu ar y cyd, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos wrth inni fynd i'r afael â'r cyfnod heriol hwn. Mae'n anochel ein bod wedi gorfod diwygio'r amserlen gyflawni oherwydd pwysau chwyddiant, ond nid yw hyn yn effeithio ar raddfa ein huchelgeisiau.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

SeneddCyllid@senedd.cymru

24 Mawrth 2023

Annwyl Peredur,

Gan gyfeirio at y cwestiwn canlynol, a godwyd gennych â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yng nghyfarfod craffu'r Pwyllgor Cyllid ar yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 22-23 a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023:

***Beth mae'r cyllid ychwanegol a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i'r GIG wedi ei gyflawni mewn gwirionedd a sut rydych yn monitro eich disgwyliadau ar gyfer y gwariant hwnnw?***

Fel yr ymatebodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn y Pwyllgor, os cofiaf yn iawn, mae manylion y gwariant ychwanegol a roddwyd yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn yr ail gyllideb atodol.

Cafodd y Grŵp Gwariant Ychwanegol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyllid ychwanegol o £290m o gronfeydd Llywodraeth Cymru:

- cyllid ychwanegol o £170.000m ar gyfer pwysau COVID-19 a chostau ynni;
- £120.000m i gyllido cyflogau ychwanegol y GIG ar gyfer 2022-23.

Mae'r swm ychwanegol o £170m yn yr ail gyllideb atodol wedi ei ddyrannu fel a ganlyn:

- £89m ar gyfer y costau parhaus sy'n gysylltiedig ag ymateb y GIG i COVID-19;
- £81m ar gyfer costau ynni ychwanegol eithriadol a wynebwyd gan y GIG yn ystod 22-23.

Gwnaed gwaith craffu ar y costau hyn fel rhan o'n trefniadau monitro ariannol yn ystod y flwyddyn.

O ran y gyllideb ychwanegol o £120m ar gyfer dyfarniad cyflog uwch i staff y GIG; mae hyn wedi cael ei dyrannu'n llawn i dalu'r costau a rhagwelwyd ar gyfer y dyfarniad cyflog ychwanegol untro o 1.5% yn 22-23 a'r elfen gyfunedig o 1.5% y cytunwyd arni hefyd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cyllid adfer**
Caiff y buddsoddiad gwreiddiol a gynlluniwyd gennym o £170m y flwyddyn ariannol hon ar gyfer ‘Adfer’ ei ddefnyddio i leihau amseroedd aros a sicrhau trawsnewid. Roedd y buddsoddiad hwn yn rhan o'n cyllideb wreiddiol a'r dyraniadau i fyrddau iechyd lleol ar ddechrau'r flwyddyn.

Mae lleihau amseroedd aros yn flaenoriaeth ar gyfer y cyllid hwn, ond rydym hefyd yn glir bod angen inni sicrhau trawsnewid er mwyn datblygu model gwasanaethau mwy cynaliadwy. O ganlyniad i'r gwaith ychwanegol ar reoli llwybrau, mae nifer y llwybrau sy'n aros i ddechrau triniaeth bellach wedi dechrau sadio a gostwng. **Mae rhestrau aros yng Nghymru wedi byrhau am y trydydd mis yn olynol ym mis Rhagfyr 2022.** Nid yw'r duedd hon i'w gweld yn Lloegr, ac roedd amseroedd aros yn Lloegr ym mis Rhagfyr yn uwch unwaith eto, ar ôl iddynt ostwng ychydig ym mis Tachwedd. Ym mis **Rhagfyr** 2022, roedd cyfanswm nifer y llwybrau agored yn Lloegr wedi cynyddu gan **21% (1.13 miliwn)** dros y 12 mis diwethaf, tra bo nifer y llwybrau hynny yng Nghymru wedi cynyddu gan **7% (49,907)** yn unig yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r targedau o ran amseroedd aros a bennwyd gennym yn heriol, ond roedd angen eu pennu er mwyn ysgogi'r gwelliannau roedd angen eu gwneud. Yng Nghymru, rydym wedi ymrwymo i flaenoriaethu prosesau adolygu a diagnostig cynnar fel blaenoriaeth ar gyfer adfer, ond nid oedd hyn y darged yn Lloegr. Er na chafodd targed mis Rhagfyr ei gyrraedd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y targed hwn ac wedi nodi dyddiad terfyn newydd ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw gleifion allanol yn aros dros 52 o wythnosau erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

Mae'n siomedig nad yw'r GIG wedi gallu cyrraedd y targed cychwynnol, ond mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran lleihau amseroedd aros hir. Ond roedd angen cydbwyso hyn â darparu capasiti digonol ar gyfer achosion brys.

- Roedd cymaint â 102,662 o gleifion allanol yn aros mwy na 52 o wythnosau ym mis Awst 2022. Mae'r nifer a welwyd ym mis Rhagfyr, sef 74,976, yn ostyngiad o dros 27,600 o bobl, sef gwelliant o bron 27%. Ym mis Rhagfyr 2022 roedd ychydig llai na 9 o bob 10 o gleifion allanol a oedd yn aros dros 52 o wythnosau yn digwydd mewn saith maes arbenigol, ac roedd nifer mawr o feysydd arbenigol heb unrhyw lwybrau'n aros, neu â llai na 50 o lwybrau'n aros.

- Mae atgyfeiriadau at wasanaethau canser ar gyfer achosion lle'r amheuir canser wedi cynyddu, fel y rhagwelwyd, ar ôl y pandemig. Rhoddir blaenoriaeth glinigol i bob un o'r rhain nes iddynt gael eu hadolygu, ac mae amseroedd aros byrrach bob mis ar gyfer cleifion allanol yn benodol. Mae nifer y llwybrau lle'r amheuir canser sydd wedi eu symud o'r llwybr hwnnw wedi cynyddu yn 2022. Roedd y nifer hwn 5% yn uwch ym mis Rhagfyr 2022 o'i gymharu â mis Rhagfyr 2021.

- Mae'r gweithgarwch ar gyfer apwyntiadau newydd i gleifion allanol, wyneb yn wyneb ac yn rhithwir, wedi cynyddu mewn rhai meysydd yn uwch na'r lefelau cyn COVID-19. Ond fel y nodwyd, mae hyn yn cynnwys achosion clinigol brys a phobl sydd wedi bod yn aros am gyfnodau hir. Pan fo mwy o achosion brys, bydd llai o apwyntiadau ar gael i achosion arferol sydd wed bod yn aros am gyfnodau hir.

**Monitro a chyflawni ar y buddsoddiad GIG ychwanegol yn 2022-23;**

Cynhaliodd Uned Cyflawni Ariannol y GIG asesiad o sut y defnyddiwyd y cyllid Adfer o £170m er mwyn dangos sut mae wedi cael ei ddefnyddio. Roedd sefydliadau'n defnyddio'r adnoddau gan ganolbwyntio ar y meysydd canlynol yn bennaf:

- Cael y capasiti mewnol mwyaf posibl
- Dod â seilwaith i'r safle – Theatrau
- Capasiti ychwanegol gyda'r sector preifat
- Diagnosteg
- Gwelliannau mewn llwybrau gofal brys i leihau'r posibilrwydd o ganslo.

- Mae penawdau allweddol o'r crynodeb data arbenigol a ddaeth i law gan yr Uned Cyflawni Ariannol yn cynnwys:
  - Offthalmoleg £18m, gweithgaredd 39,945
  - Orthopedeg £13m, gweithgaredd 18,519
  - Mae Gofal wedi'i Gynllunio / Arbenigeddau amrywiol / Mwy nag un arbenigedd yn cyfrif am tua £42m.
  - Gofal Heb ei Drefnu/Gofal Brys/Meddyginiaeth £22m

- Mae ein cynllun adfer GIG hefyd yn canolbwyntio ar drawsnewid ac ailgynllunio llwybrau. Nod y cynllun adfer oedd mynd i'r afael â'r ôl-groniad o achosion yn ogystal ag ailosod a thrawsnewid gwasanaethau. Mae cyllid rheolaidd o £15m ychwanegol yn cefnogi'r gwaith trawsnewid. Mae adnodd monitro ar waith ar gyfer pob rhaglen waith, o raglenni cenedlaethol i raglenni byrddau iechyd lleol, er mwyn dangos gwerth am arian y rhaglenni a'u heffaith. Mae'r cyllid wedi cael ei roi mewn dau gam, yn dibynnu ar sicrhau cynnydd yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Mae rhai ohonynt ar gam cynnar o hyd, ac efallai y bydd yn cymryd rhagor o amser cyn y gellir gweld yn llawn eu heffaith hirdymor.

- Ailgynllunio llwybrau: mae cyfanswm yr atgyfeiriadau at wasanaethau gofal eilaidd wedi gostwng yn nhri o'r llwybrau llawfeddygol â niferoedd mawr, o'u cymharu â'r hyn a welwyd cyn COVID-19. (Rhagfyr i Dachwedd 2018/19 o'u cymharu â Rhagfyr i Dachwedd 2021/22). *Nid gostyngiad yn y galw yw hyn, ond newid yn y ffordd y caiff y galw ei reoli.*

  - Mae gwasanaethau'r glust, y trwyn a'r gwddf (ENT) wedi gostwng gan 16.8%,
  - Mae orthopedeg wedi gostwng gan 22%,
  - Mae offthalmoleg wedi gostwng gan 1.6%

Meysydd â niferoedd mawr yw'r rhain, lle mae'r galw wedi parhau i gynyddu, ond mae'r ffordd rydym yn rheoli'r galw wedi newid.

Ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu hadolygu a'u rheoli'n briodol, yn agos at y cartref lle y bo'n bosibl-

- Cyngor a chanllawiau arbennig (Consultant connect yn ardal pob bwrdd iechyd)- sy'n caniatáu ar gyfer canllawiau clinigol lleol neu genedlaethol ar y diwrnod ar y ffordd orau o reoli gofal unrhyw glaf (contract caffael cenedlaethol).

- Cyngor electronig: Weithiau mae clinigwyr gofal sylfaenol am gael cyngor penodol ar sut i reoli claf. Yn lle cychwyn atgyfeiriad uniongyrchol ar gyfer gofal eilaidd, mae'r gwasanaeth e-gyngor yn rhoi cyfle i feddygon teulu ofyn am ganllawiau clinigol drwy ddolen electronig ddiogel at ofal arbenigol. Gwelwyd bod hyn yn lleihau'r angen am atgyfeiriad.

- Ailgynllunio llwybrau: drwy sicrhau bod profion priodol neu lwybrau amgen yn cael eu hystyried gellir sicrhau gofal sy'n ychwanegu gwerth a gwneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol. Ar gyfer ENT, un enghraifft yw rhagor o wasanaethau awdioleg yng ngofal sylfaenol. Ar gyfer orthopedeg, sicrheir bod rhagor o wasanaethau therapi angen ar gael er mwyn rheoli anghenion y cleifion. Ym maes offthalmoleg, mae rhagor o gontractau a llwybrau'n cael eu harwain gan optometreg gofal sylfaenol (*caffael adnodd cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ailgynllunio llwybrau ar lefel genedlaethol a lleol, i ddechrau yn 2023/24, proses caffael 2023.*)

- Dewis amgen yn lle modelau gofal traddodiadol: Yn ystod COVID-19, cynhaliwyd adolygiadau rhithwyr yng ngofal sylfaenol ac eilaidd. Er bod yr arfer hwn yn llai cyffredin efallai wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu codi, caiff ei ystyried o hyd yn rhan bwysig o'r gwaith adfer, ac mae'n parhau ei gael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth eang o wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys ymgyngoriadau unigol a grŵp. Mae Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU) a Sylw yn ôl Symptomau' (SoS) wedi cael eu cyflwyno ym mhob bwrdd iechyd gyda llwybrau ar gyfer amrywiaeth eang o arbenigeddau. Maent wedi cael eu defnyddio i gynyddu'r capasiti ar gyfer cleifion allanol newydd wrth reoli gofal dilynol cleifion yn ddiogel. Yn ystod y chwe mis cyntaf cafodd dros 98,000 o lwybrau dilynol cleifion allanol eu newid i PIFU neu SoS.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/0880/23

Elin Jones MS/AS
Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.Cymru

22 Mawrth 2023

Annwyl Elin

Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi pasio'r Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ar 6 Rhagfyr 2022. Er mwyn tryloywder, hoffwn ddisgrifio bwriadau'r Llywodraeth o ran Cysyniad Brenhinol a dod â'r Ddeddf i rym.

Rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd dystiolaeth i dri phwyllgor. Copïaf y llythyr hwn at Gadeiryddion y pwyllgorau hynny.

Mae'r Bil yn ennyn Cytundeb Rhwystrau Technegol i Fasnachu Sefydliad Masnach y Byd (WTO), sy'n cynnwys mesur cyfreithiol i roi cyfnod rhesymol (chwe mis fel rheol) rhwng pasio a chyhoeddi deddfwriaeth sy'n effeithio ar fasnach a dod â hi i rym. Mae'r gofyniad er mwyn caniatáu i fusnesau yn aelod-wledydd y WTO addasu eu cynhyrchion i fodloni gofynion y gofyniadau newydd. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sylweddol a fydd yn cychwyn y diwrnod ar ôl Cysyniad Brenhinol. O ganlyniad, ni fwriadaf osod y Sêl Gymreig ar y Breinlythyrau nes bod y cyfnod chwe mis i hysbysu'r WTO wedi dod i ben yn gynnar ym mis Mehefin.

Dyma'r tro cyntaf ers i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd i'r Senedd basio Bil sy'n ennyn y broses WTO hon. Yn ddatblygiad o ymarfer da, yn y dyfodol sicrhaf y cewch eich hysbysu mewn ysgrifen am unrhyw ddeddfwriaeth arall y disgwyliwn i ennyn y weithdrefn WTO hon.

Rwy'n hapus i drafod yr ymagwedd hon yn bellach gyda chi pan gwrddwn heddiw. Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd ac Seilwaith;

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakefordy@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**—**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

9 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Diolch am gytuno i ddod i'n cyfarfod ddydd Iau 30 Mawrth 2023 i drafod Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Gan fod yr amserlen graffu y cytunwyd arni gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil hwn yn caniatáu amser cyfyngedig ar gyfer craffu Cyfnod 1, rydym wedi dilyn, a hynny â diddordeb, y dystiolaeth a roesoch yr wythnos hon i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid. Er mwyn ein helpu i baratoi ar gyfer ein sesiwn dystiolaeth ar 30 Mawrth, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol (ac unrhyw faterion eraill y credwch y byddai'n ddefnyddiol eu nodi'n ysgrifenedig i ategu'r wybodaeth sydd eisoes ar gael yn y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o Fwriad Polisi):

1. A fyddech cystal â darparu amserlen sy'n nodi cerrig milltir allweddol a'ch amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'r Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, rheoliadau a digwyddiadau cysylltiedig eraill, gan gynnwys:

    a. Eich dealltwriaeth o pryd mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn debygol o gael Cydsyniad Brenhinol a dod i rym; pryd y disgwylir i Lywodraeth y DU gyhoeddi canlyniadau ei hymgynghoriad ar Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR); a phryd y disgwylir i Lywodraeth y DU osod rheoliadau drafft i roi effaith i'r PSR gerbron y Senedd.

    b. Pryd ydych yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad 12 wythnos yr ydych wedi ymrwymo iddo yn digwydd.



Senedd Cymru
Welsh Parliament


c. Pryd ydych yn rhagweld gosod rheoliadau drafft a chyhoeddi canllawiau statudol o dan y Bil, a phryd ydych yn rhagweld y byddant yn dod i rym.

2. Crynodeb bras o'r dull yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ei ddefnyddio yn eich ymgynghoriad 12 wythnos. Er enghraifft, a fydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar addasrwydd PSR Llywodraeth y DU i'w gymhwyso yng Nghymru, ar yr egwyddorion a allai fod yn sail i drefniadau newydd yng Nghymru, neu ar reoliadau drafft penodol neu ganllawiau statudol drafft.

3. Yn eich sesiwn gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 6 Mawrth, cwestiynodd Cadeirydd y pwyllgor, Huw Irranca-Davies AS, y rhyngweithio rhwng Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd sy'n cael eu caffael yn dilyn rheoliadau a wnaed o dan bŵer 'creu' y Bil. Mewn ymateb, esboniodd un o'ch swyddogion mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw pan fydd y Senedd yn deddfu mewn maes sydd heb ei gadw'n ôl, mae'n gwneud hynny'n rhydd o ofynion y Ddeddf. Gan fod hyn yn cynnwys lle mae deddfwriaeth sylfaenol yn darparu pwerau gwneud rheoliadau, dywedodd y swyddog na fydd darpariaethau sy'n ymwneud â chaffael nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal iechyd a gynhwysir yn y Bil ac unrhyw reoliadau yn y dyfodol a wneir gan ddefnyddio'r pwerau yn y Bil hwn yn ymgysylltu â Deddf Marchnad Fewnol y DU.
A allwch chi ddarparu dadansoddiad pellach sy'n dangos sut a pham y mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r farn hon?

Er mwyn sicrhau y gallwn ystyried eich tystiolaeth wrth i ni baratoi ar gyfer y sesiwn, byddem yn ddiolchgar am ymateb **erbyn 17 Mawrth 2023**. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid, gan fy mod yn siŵr y byddant hefyd yn gweld y wybodaeth hon o gymorth wrth iddynt graffu ar y Bil.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd, y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

24 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich llythyr a'r cwestiynau a ofynnwyd gan eich Pwyllgor yn ymwneud â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Rwy'n falch o roi fy ymateb, sydd wedi'i amgáu yn Atodiad A.

Yn eich llythyr, fe wnaethoch hefyd gynnig y cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig atodol mewn perthynas â'r Bil ac rwyf hefyd wedi cael ceisiadau tebyg gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid. Felly, rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol yn Atodiad A i gefnogi'r tri Phwyllgor gyda'r broses o graffu'r Bil.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich cwestiynau. Fodd bynnag, os oes gennych gwestiynau pellach neu feysydd pellach sydd angen eglurhad, mae fy swyddogion a minnau'n hapus i gynnig tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, neu ddarparu sesiwn friffio technegol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU) - YMATEB I GWESTIYNAU GAN Y PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD, LLYTHYR DYDDIEDIG 13 MAWRTH 2023**

***C1 - Yr amserlenni ar gyfer datblygu rheoliadau o dan y Bil i gyflwyno trefn gaffael ar wahân newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad a rhoi cyfleoedd i'r Senedd graffu ar y rheoliadau drafft a'r rheoliadau terfynol.***

Ar hyn o bryd ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst.

Wedi iddo gael Cydsyniad Brenhinol, bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos gan ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'n debygol o ddechrau yn gynnar yn yr Hydref. Fodd bynnag, mae'r amseru hwn yn amodol ar weld y Rheoliadau terfynol a'r canllawiau statudol ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar sut bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn gweithredu yn Lloegr ac a yw hwn yn ddull y dylem ei atgynhyrchu yng Nghymru, i raddau mwy neu lai, lle bo'n briodol.

Bydd canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn helpu i lywio datblygiad rheoliadau a chanllawiau statudol yn y dyfodol (a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth â GIG Cymru). O'r herwydd, nid ydym yn cynnig ymgynghori ar hyn o bryd ar reoliadau a chanllawiau statudol gwirioneddol Cymru.

Rydym yn rhagweld gosod rheoliadau ar ddechrau 2024 gan ddilyn y 'weithdrefn gadarnhaol ddrafft' i roi cyfle i'r Senedd graffu ar y rheoliadau. Y nod yw y daw'r rheoliadau hynny i rym yn ystod Gwanwyn 2024, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd.

Nod y llinell amser arfaethedig hon yw cyd-fynd cyn belled ag y bo modd â newidiadau diwygio caffael ehangach o ganlyniad i Fil Caffael Llywodraeth y DU i leihau'r effaith weithredol ar 'awdurdodau perthnasol' a fydd yn rhoi'r cyfundrefnau caffael newydd ar waith.

***C2 – Wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu, manylion am unrhyw rwystrau sy'n codi a allai amharu ar allu'r Senedd i graffu arnynt o fewn terfynau amser penodedig.***

Mae'r llinellau amser a ddarperir yn yr ymateb i C1 yn seiliedig ar dybiaethau y bydd Bil Caffael Llywodraeth y DU yn llwyddo i gael Cydsyniad Brenhinol y Gwanwyn hwn ac y bydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst. Yn hanfodol, mae angen i ni weld manylion a rheoliadau terfynol y Gyfundrefn Dethol Darparwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, i'n galluogi i ddatblygu egwyddorion gweithredol trefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd ar gyfer Cymru.

***C3 - Enghreifftiau ychwanegol o 'gaffaeliadau cymysg' ('mixed procurements') ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gofal iechyd, y bydd canllawiau statudol ar eu cyfer yn nodi pa drefn gaffael sy'n berthnasol iddynt: naill ai'r rheolau a ddarperir gan Fil Caffael Llywodraeth y DU neu'r rheolau a ddarperir gan reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn.***

Mae'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd' a geir yn y Bil yn ymwneud â 'gwasanaethau iechyd **'clinigol'**' fel y'u disgrifiwyd gan adrannau 1 a 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd y gwasanaethau iechyd clinigol yn cael eu diffinio mewn rheoliadau yn y dyfodol gan godau Geirfa Gaffael Gyffredin ("codau CPV"). Er enghraifft, mae rhestr **ddrafft** o godau CPV arfaethedig o dan Gyfundrefn Dethol Darparwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i'w gweld yma. Wedi inni weld y rhestr y cytunwyd arni o godau CPV yn rheoliadau terfynol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd fy swyddogion a minnau'n ystyried a fyddwn yn dewis efelychu'r un codau CPV yn y rheoliadau arfaethedig yn y dyfodol.

Felly, nid yw'r Bil yn ymdrin â chaffael 'gwasanaethau nad ydynt yn glinigol' na nwyddau **ar wahân** (fel bwyd). Bydd nwyddau a gwasanaethau eraill ar wahân a gafodd eu caffael gan y sector iechyd yng Nghymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rheoliadau caffael presennol, hyd nes bydd y rhain yn cael eu disodli gan y diwygiadau caffael ehangach o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) fodd bynnag yn gwneud darpariaeth ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau eraill sydd wedi'u '**cysylltu â**' gwasanaethau iechyd clinigol (h.y. caffael cymysg). Bydd angen i ddarpariaethau ynghylch caffael cymysg fod yn gyson â rheolau a nodir mewn darpariaethau o dan reoliadau caffael a diwygiadau presennol o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

Rhagwelir y bydd 'caffael cymysg' o fewn Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn berthnasol o fewn set ddiffiniedig o reolau ac o dan amgylchiadau penodol yn

unig. Er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol i drefniadau lle mai'r prif destun dan sylw yw 'gwasanaeth iechyd clinigol' ac ni ellir gwahanu caffael y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig, neu byddai caffael nwyddau a gwasanaethau o'r fath ar wahân yn cael effaith andwyol ar gyflawni'r 'gwasanaeth iechyd clinigol'.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried safbwynt tebyg ar 'gaffael cymysg' yn eu Cyfundrefn Dethol Darparwyr a'r amgylchiadau a chwmpas pan fydd rheolau o'r fath yn berthnasol. Mae gwybodaeth am ddull gweithredu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ymdrin â'r mater hwn wedi'i gynnwys yma ac fel y manylir yn nadl Tŷ'r Arglwyddi ar Fesur Caffael Llywodraeth y DU fis Tachwedd y llynedd[1].

I grynhoi, bydd fy swyddogion a minnau yn ystyried y manylion gweithredol ynghylch sut y bydd 'caffael cymysg' yn gweithio'n ymarferol fel rhan o ddatblygiad rheoliadau i'r dyfodol a chanllawiau cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**GWYBODAETH ATODOL YCHWANEGOL – yn dilyn gohebiaeth gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil.**

***Perthynas barhaus â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr***

Hoffwn achub y cyfle hwn i amlinellu'r sefyllfa'n ymwneud â deialog flaenorol a deialog barhaus â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr.

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 ac roedd y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael y gwasanaeth iechyd yn gymwys i Loegr yn unig. Bu rhyngweithio cyfyngedig hyd yma rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'm swyddogion innau ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr wrth i bolisi'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei ddatblygu, a chyfyngedig oedd gwerthfawrogiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o effaith weithredol ganfyddedig caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Fodd bynnag, wrth i bolisi gael ei ddatblygu ymhellach ac wrth i ryngweithio gynyddu, cydnabuwyd effaith bosibl y Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig ar gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennais at Weinidog Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y pryd, Maria

[1] https://hansard.parliament.uk/Lords/2022-11-28/debates/916A209A-EB71-4F08-A080-5DE3DE3A5284/ProcurementBill(HL)#contribution-A83EB580-2EC1-4C3F-A08F-DE7F493BC143

Caulfield AS, i roi gwybod yr hoffwn gael gwell dealltwriaeth o sut y byddai'r bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr yn effeithio ar gaffael yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Fe wnes i bwysleisio pwysigrwydd cryfhau'r berthynas bresennol rhwng ein swyddogion; parhau i ymgysylltu ar y mater hwn a gofyn am weld rheoliadau drafft y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar y cyfle cyntaf.

Ers hynny mae fy swyddogion a'u cymheiriaid yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi meithrin perthynas waith ardderchog. Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'm swyddogion ynghylch hynt y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ac mae fy swyddogion wedi trafod cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Lle bo'n briodol i wneud hynny, mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi rhoi gwybodaeth ddrafft i'm swyddogion ar y cynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, gan gynnwys gweld y rheoliadau drafft, a rannwyd yn gyfrinachol yn gynnar yn eu datblygiad. Mae'r berthynas waith agos hon yn parhau ac rydym yn rhagweld y bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhannu copïau o'r rheoliadau gorffenedig pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w gosod.

***Gwybodaeth am y cyfrifiadau manwl mewn perthynas â'r cynnydd o £2.7 miliwn mewn costau staff i Gyrff y GIG a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.***

Mae dadansoddiad o'r ffigurau dangosol ar gyfer costau staffio'r GIG a nodir ym mharagraff 93 a thabl 7 o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil wedi'i nodi isod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** | | | |
| **Braslun o Gostau Staffio GIG Cymru** | | | |
| | | | |
| Cyfanswm costau refeniw y flwyddyn ar gyfer 257 o staff caffael y GIG | | £ | 10,470,018 |
| Capasiti 10% o gostau refeniw 257 o staff caffael y GIG | *y flwyddyn* | £ | 1,047,002 |
| | *y mis* | £ | 87,250 |
| | | | |
| blwyddyn 1 2023-24 | *(7 mis @ £87,250)* | £ | 610,751 |
| blwyddyn 2 2024-25 | | £ | 1,047,002 |
| blwyddyn 3 2025-26 | | £ | 1,047,002 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | | **£** | **2,704,755** |
| **Wedi’i dalgrynnu i’r £000 agosaf** | | **£** | **2,705,000** |

***Cadarnhad o’r tebygolrwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn cyllid canlyniadol o ganlyniad i'r gwariant yn Lloegr.***

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw awgrym y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn arian canlyniadol o ganlyniad i wariant sy’n gysylltiedig â'r bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn

Dethol Darparwyr yn Lloegr. Os bydd y sefyllfa hon yn newid, byddaf yn rhoi diweddariad i bwyllgorau yn ystod proses graffu'r Bil.

Department of Health & Social Care

*From Lord Markham*
*Parliamentary Under-Secretary of State*

*39 Victoria Street*
*London*
*SW1H 0EU*

Russell George MS
Chair of the Senedd Health and Social Care Committee
By email to:
SeneddHealth@senedd.wales

22 March 2023

Dear Russell,

Thank you for your letter dated 16 February 2023 to the Secretary of State for Health and Social Care. As the lead minister for the Provider Selection Regime (PSR) policy, the Secretary of State has asked me to respond on his behalf.

Our plans to establish the PSR in England were set out in the 'Preview' document which UK Government published online last year as part of a consultation. We have not published the response to that consultation yet but will do so ahead of the laying of the PSR regulations before the UK Parliament.

I can confirm that officials from Welsh Government and UK Government have discussed both the PSR and Welsh Government's introduction of the Health Service Procurement (Wales) Bill. Additionally, Minister Caulfield and Minister Morgan corresponded on the PSR most recently this summer and agreed for Welsh and UK Government to continue to work together on the outcomes of the Health and Care Act 2022 – including the delivery of the PSR. To this end UK Government agreed to share the draft regulations for the PSR with Welsh Government to assist Welsh Government in their assessment of the policy.

The UK Government has shared the draft regulations with the Welsh Government. However, these regulations were still in development and were shared in confidence. At this time, UK Government in partnership with NHS England is preparing its final draft of the regulations which will set out the detail of the PSR. We plan to lay the regulations for the PSR in UK Parliament once we have a final draft ready to lay.

The date at which the regulations are laid will also inform our final planned target date to commence the PSR in England. The regulations will be subject to the affirmative parliamentary process before they can come into force.

With my very best wishes,

**LORD MARKHAM CBE**

Senedd Cymru
Comisiwn y Senedd
—
Welsh Parliament
Senedd Commission



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

30 Mawrth 2023

Annwyl Peredur

Pan ysgrifennais atoch ym mis Tachwedd gydag ymateb y Comisiwn i argymhellion y Pwyllgor Cyllid a wnaed yn yr **Adroddiad ar y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2023-2024**, ymrwymais y byddai’r Comisiwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am Argymhellion 5 ac 8. Nodir hyn yn **Atodiad 1.**

Nid yw'n bryd rhoi diweddariadau ychwanegol ar argymhellion 3, 4 a 7 eto a byddant yn cael eu darparu ar ôl i'r Comisiwn ystyried y wybodaeth berthnasol. Cyfeirir at hyn yn yr Atodiad.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor eto am ei waith craffu ac os oes unrhyw wybodaeth bellach yr hoffech ei chael, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir

Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi, Ed Williams

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Atodiad 1 - Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

### Argymhelliad 5.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn rhoi diweddariad cyn gynted ag y bydd penderfyniadau ynghylch dyfodol swyddfa Bae Colwyn a phresenoldeb y Senedd yn y gogledd wedi'u gwneud.**

Mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo achos busnes i ddarparu'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd i staff ac Aelodau yn swyddfa Bae Colwyn y Comisiwn yn swyddfa Sarn Mynach (Cyffordd Llandudno) Llywodraeth Cymru drwy gytundeb cydleoli. Cytunodd y Comisiwn wedyn i arfer y cymal terfynu i brydles swyddfa Gogledd Cymru a symud y swyddfa erbyn mis Gorffennaf 2023. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyflwyno hysbysiad i landlord Bae Colwyn o'i fwriad i ddod â'r brydles i ben, ac mae'r prosiect wedi symud i'w gyfnod cyflwyno. Mae'r gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer y symud, gyda Grŵp Prosiect wedi'i sefydlu a gyda'r prosiect yn rhedeg yn unol â'r amserlen. Cytunodd y Comisiynwyr y dylid egluro annibyniaeth y swyddfa oddi ar Lywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy ddeunydd brandio ac arwyddion priodol. Mae hyn yn cael ei wneud gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r cyfnod cyflwyno. Mae disgwyl i'r prosiect greu arbediad o £100,000 dros y cyfnod arfarnu.

### Argymhelliad 8.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gofyn am farn yr Aelodau er mwyn deall yn well y gwaith ymgysylltu y maent am ei ddatblygu ac, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau, dylai roi diweddariad i'r Pwyllgor ar sut y gellir cyflwyno cynigion o'r fath o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.**

Rydym yn cwblhau ein cynlluniau i ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y misoedd nesaf. Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn bresennol yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ac aeth i gyfarfod y Grŵp Cyswllt Gwleidyddol gyda'r Pennaeth Ymgysylltu *ddydd Iau 9 Mawrth*. Mae ein Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Phenaethiaid Gwasanaeth hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â Phenaethiaid Staff ar ein gwaith ymgysylltu.

Rydym yn archwilio'r ffordd orau o barhau i ymgysylltu'n uniongyrchol ag Aelodau, tra'n cydnabod y pwysau gwaith trwm maent yn eu hwynebu. Bydd ein cynllun ymgysylltu yn edrych ar y ffyrdd gorau o ymgysylltu ag Aelodau i gyflawni ein strategaeth bresennol gan ddefnyddio sianeli presennol ar gyfer ymgysylltu ag Aelodau. Bydd hyn yn llywio'r ffordd orau o ymgysylltu ag Aelodau'r Seithfed Senedd wrth ddatblygu ein strategaeth nesaf.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn darparu diweddariadau o bryd i'w gilydd ynghylch y canlynol:**

- **y mentrau arbed ynni sydd wedi'u cynllunio a'r rhai sydd wedi'u gweithredu;**
- **effeithiolrwydd y mentrau hynny o ran sicrhau canlyniadau cynaliadwy;**
- **a'r effaith gysylltiedig ar gostau ac arbedion.**

Bydd y diweddariad nesaf yn cael ei gynnwys fel rhan o adroddiadau a diweddariadau rheolaidd y Comisiwn ar ei fentrau arbed ynni i gefnogi ei strategaeth garbon niwtral a'i gamau gweithredu ar gynaliadwyedd. Bydd y rhain yn rhan o'r Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol ac yn cael eu crynhoi yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ddiwedd Mehefin, neu ddechrau Gorffennaf, unwaith y bydd y Comisiwn wedi cytuno arnynt. Byddwn yn parhau i fod yn agored ynghylch gwaith a chynnydd yn y maes hwn trwy gynnwys diweddariadau gyda gwybodaeth am y costau a'r effaith gyffredinol yn yr adroddiadau blynyddol hyn.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn gwneud y canlynol:**

- **ystyried y manteision ariannol a gweithredol neu fel arall o brynu rhydd-ddaliad Tŷ Hywel fel dewis arall yn lle ymestyn y brydles gyfredol; ac**
- **yn darparu diweddariadau rheolaidd ar yr opsiynau a werthuswyd mewn perthynas â dyfodol pob adeilad ar yr ystâd er mwyn sicrhau tryloywder a gwerth am arian.**

Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr, cytunodd y Comisiwn i gyfarwyddo ein hymgynghorwyr eiddo proffesiynol Avison Young i ddarparu cyngor manwl cychwynnol ar yr ystod o opsiynau eiddo sydd ar gael i'r Senedd ar gyfer ystâd Bae Caerdydd a fydd yn cynnwys manteision ariannol a gweithredol yr opsiynau sydd ar gael. Rydym yn disgwyl cael y cyngor cychwynnol ddiwedd gwanwyn 2023. Bydd swyddogion yn adolygu'r cyngor yn ofalus, a bydd y Comisiwn yn ei ystyried. Yn amodol ar hynny, bydd Achos Amlinellol Strategol, sy'n gwerthuso'r opsiynau ar gyfer swyddfeydd yn y dyfodol yn unol â phroses 'Llyfr Gwyrdd' Trysorlys Cymru / Trysorlys EF, yn cael ei baratoi yn ystod y flwyddyn galendr hon. Byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor wrth i'r gwaith ar yr Achos Amlinellol Strategol ddatblygu.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Senedd roi camau ar waith i werthuso effeithiolrwydd y mentrau y mae wedi'u cyflwyno i liniaru effaith pwysau costau byw ar staff a rhannu ei ganfyddiadau o adolygiadau o'r fath.**

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnal 'arolwg pwls' rheolaidd sy'n ei helpu i werthuso ei fentrau yn y maes hwn. Bydd canfyddiadau perthnasol o'r arolwg pwls nesaf yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor unwaith y byddant ar gael.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/00114/23

Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

03 Ebrill 2023

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Rwy'n meddwl y gallai fod o gymorth ymateb i bwyntiau a wnaed yn y Pwyllgor a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ynglŷn â'r Setliad Llywodraeth Leol, o ran lefel yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chyhoeddi ynghylch y cyfrifiadau ar gyfer dosbarthu setliadau.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau tryloywder mewn perthynas â'r setliad llywodraeth leol. Rwy'n cydnabod ei fod yn gymhleth, ac mae fy swyddogion a swyddogion CLlLC wedi cryfhau'r ymdrechion i egluro sut mae'r setliad yn gweithio, drwy gynnig mwy o sesiynau gwybodaeth i aelodau etholedig a swyddogion lleol, a hefyd i Gymdeithas Trysoryddion Cymru. Fel y gwyddoch, mae fy swyddogion yn cynnig gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y fformiwla bob blwyddyn cyn y setliad llywodraeth leol dros dro. Rwyf wedi gofyn iddynt sicrhau bod y cynnig hwn yn cael ei ddarparu'n ehangach, gan gynnwys i'r Pwyllgor Cyllid yn benodol ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

O ran yr wybodaeth sydd wedi bod yn cael ei chyhoeddi ers rhai blynyddoedd, mae'r adroddiad ar Gyllid Llywodraeth Leol (sydd hefyd yn cael ei osod gerbron y Senedd) yn cynnwys llawer o'r manylion yn y setliad, megis sail y cyfrifiadau ar gyfer adrannau'r Grant Cymorth Refeniw, Ardrethi Annomestig, a'r Asesiad o Wariant Safonol, yn ogystal â'r dangosyddion a'r gwerthoedd a ddefnyddir yn y cyfrifiadau.

Yn ogystal â hyn, cyhoeddir y Llyfr Gwyrdd mewn perthynas â phob blwyddyn. Mae'r fersiynau ar gyfer 2021-22 a 2022-23 wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar, a bydd yr un ar gyfer 2023-24 yn cael ei chyhoeddi maes o law. Er ei bod yn bosibl i'r Llyfr Gwyrdd ddarparu ffynhonnell ar gyfer pob elfen o'r cyfrifiad, rwy'n sylweddoli y byddai'n gryn ymdrech cael yr wybodaeth o'r ffynhonnell honno. Fel rhan o'r ymgyrch i wella tryloywder a dealltwriaeth mewn perthynas â'r agwedd bwysig hon ar gyllid Llywodraeth Leol, mae strwythur y Llyfr Gwyrdd ar gyfer 2021-22 ymlaen wedi cael ei wella'n sylweddol o ran bod yn haws ei ddefnyddio a lefel yr wybodaeth sydd ynddo. Mae'r wybodaeth gefndir yn cael ei chyflwyno mewn modd eglur mewn PDF, ac mae llawlyfrau ar wahân ar gael sy'n cynnwys manylion y dangosyddion a'r asesiadau sy'n seiliedig ar ddangosyddion gwasanaethau. O

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fewn y rhain, mae'r fformiwlâu yn cael eu cyflwyno er mwyn cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer y prif feysydd gwasanaeth:

- addysg
- gwasanaethau cymdeithasol personol
- tân
- trafnidiaeth
- gwasanaethau eraill
- cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor
- ariannu dyledion

Wrth gloi, rwyf yn glir bod y broses o godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth yn un barhaus, a bod dealltwriaeth yn gwbl angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith craffu a datblygu priodol o fewn llywodraeth leol a drwy'r Senedd.  Mae fy swyddogion a hefyd CLlLC yn parhau â'u hymdrechion i hyrwyddo'r ddealltwriaeth briodol. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw ddatblygiadau pellach wrth iddynt ddigwydd.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

28 Chwefror 2023

Annwyl Jenny, Huw a Peredur,

Rwy'n ysgrifennu atoch cyn y ddadl Cyfnod 3 ar Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 7 Mawrth i'ch hysbysu fy mod i heddiw wedi cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Memorandwm Esboniadol ('ME') ar gyfer y Bil.

Gwnaed diwygiadau drwy gydol y ME i adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gennyf mewn ymateb i nifer o Argymhellion gan y Pwyllgorau yng Nghyfnod 1. Rhestrir y prif newidiadau ar dudalen 45 o'r ddogfen, a bydd yn glir i Gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau i ba Argymhellion y mae'r rhain yn perthyn. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol darparu rhagor o fanylion mewn perthynas â'r Argymhellion a ganlyn gan y Pwyllgorau, fel eich bod yn gwybod i sicrwydd bod y rhain wedi cael eu trin yn briodol:

a) Mewn ymateb i Argymhelliad 2 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: gwnaed diwygiadau i destun naratif penodau 3 ac 11 i egluro'n well y canlyniadau y mae'r Bil yn ceisio eu cyflawni a sut y bydd y rhain yn cael eu monitro a'u mesur dros amser. Mae rhanddeiliaid allweddol hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddiwygio'r ME (gweler c) ac e) isod).

b) Mewn ymateb i Argymhelliad 11 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ac Argymhelliad 10 cysylltiedig y Pwyllgor Cyllid: mae'r newidiadau a wnaed yng nghyswllt swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilio Cymru i'w gweld ym mharagraff 282 ac yn Nhabl 3.4, a hefyd ym mharagraffau 289 – 293. Byddwch yn cofio imi ddarparu manylion ynghylch cyllideb y Comisiynydd yn fy llythyr atoch ar 17 Ionawr - nid yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y ME

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diwygiedig gan nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil.

c) Mewn ymateb i Argymhelliad 17 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac Argymhelliad 3 y Pwyllgor Cyllid: yn dilyn ymgynghoriad pellach â rhanddeiliaid caffael cyhoeddus allanol, mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen i sicrhau bod awdurdodau contractio yn gallu cyflawni eu dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol, a'r costau cysylltiedig, wedi'u cynyddu mewn ymateb i bryderon bod y ME gwreiddiol wedi rhoi amcangyfrif rhy isel ar gyfer y rhain. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

   - mae'r canllawiau a'r gefnogaeth sydd eu hangen (sydd bellach yn cynnwys sesiynau cymorth cyflenwyr, gyda diwrnodau hyfforddi staff y pen y flwyddyn wedi cynyddu o 8 i 20 y pen) a chost cynhyrchu a darparu hyn, wedi cael eu codi o £360,400 i £641,100 (gweler Tabl 5.1, Tabl 5.4, Tabl 5.7, Tabl 6 a pharagraff 390); a,

   - mae'r amser sydd ei angen ar gyfer gosod a chynllunio amcanion wedi ei gynyddu o 7 diwrnod y pen y flwyddyn i 11 diwrnod y pen y flwyddyn, ac mae'r costau wedi'u codi yn unol â hynny, o £98,400 i £215,900 (gweler Tabl 5.6).

d) Mewn ymateb i Argymhelliad 22 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: ychwanegwyd testun ychwanegol at y ME yn darparu enghreifftiau o'r mathau o amgylchiadau a allai achosi ymchwiliad o dan adran 41 (gweler paragraffau 109 – 112).

e) Mewn ymateb i Argymhelliad 25 y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: yn ogystal â'r gwaith a wnaed gyda rhanddeiliaid caffael y cyfeirir ato yn c) uchod, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol i egluro'r newidiadau a wneir i'r ME, gan gynnwys mewn perthynas â chostau. Ymhlith y newidiadau hyn mae:

   - yn lle'r costau sy'n ymwneud â'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol ('SSPC') a gafodd eu cynnwys yn y ME gwreiddiol, rhoi costau'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol ('SPF') a'i olynodd. Oherwydd bod gan yr SPF aelodaeth lai a'i fod yn cyfarfod yn llai aml na'r SSPC, mae'r costau wedi'u gostwng o £73,300 i £49,900 (gweler paragraffau 198 – 204 a Thablau 2 a 2.1);

   - ymateb i bryderon bod yr amcangyfrif ar gyfer y costau ymgyfarwyddo mewn perthynas â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn rhy isel drwy gynnwys ystod ehangach o randdeiliaid, gan arwain at gynyddu'r costau o £2,200 i £22,319 (gweler paragraffau 280 – 283 a Thabl 3.4; a

   - cywiro gwall yn Nhabl 3.5 a oedd wedi cyfrifo cost tri chyfarfod Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol y flwyddyn yn hytrach na phedwar.

   Gwahoddwyd adborth gan aelodau SPF ar y newidiadau hyn, sydd wedi'i ystyried wrth lunio'r fersiwn ddiwygiedig derfynol o'r ME.

f) Mewn perthynas ag Argymhelliad 1 y Pwyllgor Cyllid: oherwydd bod yr holl gostau a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn gostau staffio (sydd wedi cael eu codi i ystyried y data cyflog diweddaraf sydd ar gael), nid oes unrhyw gostau y gellid eu hailgyfrifo i ystyried chwyddiant prisiau cyffredinol. O ran y mater ehangach a godwyd yn Argymhelliad 2 - fel y cadarnheais yn fy llythyr dyddiedig 15 Rhagfyr 2022, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ymateb ffurfiol gan y Gweinidog Cyllid a

Llywodraeth Leol ar y mater hwn maes o law.

Canlyniad y diwygiadau hyn i'r ME yw bod cyfanswm costau'r ddeddfwriaeth hon i'r sector cyhoeddus a’r sector preifat dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd wedi cynyddu o £30,399,200 i £31,552, 219.

Yn gywir,



**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

20 Ebrill 2023

Annwyl Peredur,

Rwyf am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyllid am dystiolaeth newydd sydd wedi ymddangos ynghylch costau gweithredu Bil Bwyd Cymru.

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Bwyd Cymru yn nodi '*Gwnaed tybiaethau ychwanegol yn dilyn cyswllt â swyddogion Llywodraeth yr Alban a luniodd amcangyfrifon costau ar gyfer y Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban)*.' (paragraff 331). Yn dilyn gwaith cyfathrebu rheolaidd fy swyddogion â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban, mae amcangyfrifon mwy cyfredol bellach ar gael ar gyfer costau gweithredu Bil Bwyd Cymru.

Mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer elfennau cymharol o Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022 wedi cynyddu yn sylweddol o'u cymharu â'r rheini yr oedd Llywodraeth yr Alban yn eu disgwyl pan oedd yn Fil, ac a lywiodd Femorandwm Esboniadol Bil Bwyd Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol o ran costau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru wrth weithredu Bil Bwyd Cymru, wedi eu tanamcangyfrif yn sylweddol. Rwy'n tynnu eich sylw at y tabl isod sy'n gosod y costau amcangyfrifedig sydd wedi eu cymryd yn uniongyrchol o Femorandwm Esboniadol Bil Bwyd Cymru, a'u cymharu â'r costau cyfredol y mae Llywodraeth yr Alban bellach wedi eu cyfrifo.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Costau | Costau amcangyfrifedig Bil Bwyd (Cymru) (yn seiliedig ar amcangyfrif costau 2022 Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban)) | Costau amcangyfrifedig Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) Act – Llywodraeth yr Alban Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Amser swyddogion LlC i greu **Strategaeth Fwyd Genedlaethol** a sefydlu'r Comisiwn Bwyd. | £20,960 [1] y flwyddyn | £227,600 y flwyddyn am dîm o bump uwch swyddog gweithredol (cymysgedd o swyddi llawn amser a rhan amser), ag eithrio cymeradwyaeth dirprwy gyfarwyddwr, a mewnbwn a chyngor gan gynghorwyr cyfreithiol, economegwyr, timau cyfathrebu a mewnbwn gan dimau nad ydynt yn ymwneud â bwyd. |
| **Y Comisiwn Bwyd** | rhwng £750,000 - £1,500,000 | £1.1 miliwn y flwyddyn |
| **Cynlluniau Bwyd Lleol** | £21,687 fesul Awdurdod Lleol/Bwrdd Iechyd [2] | Costau amcangyfrifedig o £46,969 - £61,186 y flwyddyn am un swyddog fesul Awdurdod Lleol, yn ddibynnol ar raddfa gyflog yr aelod staff. |

1 Memorandwm Esboniadol paragraff 325 Tabl 4 a pharagraff 374
2 Memorandwm Esboniadol paragraff 409

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd yr EMMG a Mr. Fox AS.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

cc: Mr. Paul Davies, Cadeirydd yr EMMG
Mr Peter Fox, AS.

[1] Explanatory Memorandum para 325 Table 4, para 374
[2] Explanatory Memorandum para 409

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon